# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Medi 2019

Amser: 12.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(12.45 - 13.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.00 - 13.05)

**2.1 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (20 Medi 2019)**

(Tudalen 1)

**2.2 Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr Hyn a Ddysgwyd: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (24 Medi 2019)**

(Tudalen 2)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Comisiwn y Cynulliad

(13.05 - 14.20) (Tudalennau 3 - 199)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-23-19 Papur 1 - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2018-19

PAC(5)-23-19 Papur 2 - Argymhellion a gynhwyswyd yn Adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18

Manon Antoniazzi - Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Nia Morgan - Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Suzy Davies AM – Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu

## 4 Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor

(14.20 – 14.30) (Tudalennau 200 – 203)

PAC(5)-23-19 Papur 3 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(14.30)

Eitemau 6 & 7

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(14.30 – 14.45)

## 7 Arferion a gweithdrefnau gwaith y Pwyllgor: Hyfforddiant Pwyllgor

(14.45 – 16.00)

# Eitem 2.1

Ein cyf/Our ref: MA-P-KS-3370-19

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

20 Medi 2019

Annwyl Nick,

Rwy'n deall bod eich pwyllgor yn cynnal adolygiad byr o'r broses o reoli Maes Awyr Caerdydd, a'ch bod eisoes wedi derbyn tystiolaeth gan dîm y Maes Awyr, ac y byddwch yn fuan yn derbyn tystiolaeth gan swyddogion.

Hoffwn roi'r newyddion diweddaraf ichi ar y broses o ddod o hyd i Gadeirydd newydd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf (CIAL).

Mae'r Cadeirydd presennol, Roger Lewis, i adael ym mis Hydref pan ddaw ei gyfnod o 4 blynedd i ben. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, yn gynharach eleni, cynhaliodd CIAL broses recriwtio agored, gystadleuol i drefnu olynydd Roger am y 4 blynedd nesaf.


Rwyf yn falch iawn o gadarnhau bod yr ymgeisydd a ffafriwyd gan CIAL wedi derbyn y swydd. Fodd bynnag oherwydd eu trefniadau dan gontract presennol, nid yw'r ymgeisydd yn gallu dechrau ar ei swydd tan Mehefin 2020. Ni allwn felly gadarnhau enw y person sydd i olynu Roger ar hyn o bryd.

Oherwydd yr amgylchiadau hyn, rwy'n ddiolchgar iawn i Robert sydd wedi cytuno i aros yn ei swydd tan 31 Mai 2020 er mwyn sicrhau cysondeb yn y maes awyr yn ystod y cyfnod hwn. Rwy'n siŵr y bydd Roger yn parhau i roi ei sylw ac i arwain yn y swydd bwysig hon.

Ar ran Llywodraeth Cymru hoffwn ddiolch i Roger am y gwaith mawr y mae eisoes wedi'i wneud yn y maes awyr, ac a fydd yn parhau i'w wneud nawr tan fis Mehefin.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto yn nes at yr amser i gadarnhau enw Cadeirydd newydd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsay AM
Chair, Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Our Ref: AG/SR/SB

24 September 2019

Dear Mr Ramsay

Further to my correspondence on 5 August to the Public Accounts Committee you asked for further clarification regarding the Turnaround Director role at BCUHB and specifically whether the appointment of Phillip Burns is in addition to the earlier appointment of Geoff Lang.

I can confirm the Recovery Director position is not in addition to the earlier appointment of Geoff Lang. The Health Board has realigned its recovery work and there is no longer a Turnaround Director post within the structure. The health board has also established a Financial Recovery Group to support the Recovery Director involving both Executive and Independent Member membership and has reviewed all Improvement Groups to ensure focus on both financial recovery as well as long term transformational service improvements.

Yours sincerely


**Dr Andrew Goodall CBE**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2018-19

Gorffennaf 2019





www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

0300 200 6565

Cysylltu@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

CynulliadCymru

CynulliadCenedlaetholCymru

Senedd



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:
2018-19

Gorffennaf 2019



# CYNNWYS

## Trosolwg 7

Rhagair ... 8
Rhagarweiniad ... 10
Datganiad o ddiben ... 12
Y Comisiynwyr ... 14
Cynghorwyr Annibynnol ... 16
Uwch Arweinwyr Comisiwn y Cynulliad ... 20
Rheoli'r Comisiwn ... 22
Risg ... 23
Crynodeb o weithgaredd ... 24

## Dadansoddiad o berfformiad 27

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ... 29
Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad ... 43
Defnyddio adnoddau'n ddoeth ... 57

## Atebolrwydd 87

Llywodraethu corfforaethol ... 88
Taliadau a staff ... 110
Atebolrwydd ac archwilio ... 126

## Datganiadau ariannol 137

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon ... 142
Atodiad – adroddiadau rheoleidd-dra ... 169



# TROSOLWG

Mae'r adran trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am ddiben, strwythur a nodau strategol Comisiwn y Cynulliad a rhai o'r gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

# Rhagair



**Elin Jones AC**
Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn sy'n cwmpasu fy nhrydedd flwyddyn fel Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Wrth i ni basio pwynt canol tymor y Cynulliad, rwy'n falch o'r arweinyddiaeth y mae'r Cynulliad wedi'i ddangos wrth ymateb i'r heriau o baratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Er nad ydym ni, hyd yma, yn sicr ar ba delerau y bydd hyn, a chan gydnabod bod yna wahaniaethau gwleidyddol, mae'r Cynulliad yn parhau i fod yn unedig yn ei awydd i weithio er budd Cymru.

Rwy'n falch bod Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) wedi'i gyflwyno, yn dilyn gwaith y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.  Mae'r Bil hwn yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad alw ei hun yn Senedd, gan sicrhau bod enw'r sefydliad yn adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd ac yn helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau'r ddeddfwrfa.

Mae'r Bil hefyd yn gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021, sy'n cyd-fynd ag amcan Comisiwn y Cynulliad i rymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Ym mis Chwefror, roedd yn fraint i mi gadeirio Cyfarfod Llawn cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru. Roedd mor ysbrydoledig gweld pob un o'r 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn dangos gwybodaeth, hyder ac angerdd dros eu gwlad a'r byd y tu hwnt.

Wrth ysgrifennu hyn, rydym yng nghanol dathliadau ugain mlynedd ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, fel aelod o 'Ddosbarth 99', mae'n amser arwyddocaol i ystyried o ble rydyn ni wedi dod, meddwl am yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni, a theimlo'n gyffrous am y dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen at sôn am y rhaglen o ddigwyddiadau i nodi'r garreg filltir hon yn nemocratiaeth Cymru yn yr adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Hoffwn ddiolch i holl staff Comisiwn y Cynulliad am barhau i fod mor effeithiol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni busnes y Cynulliad ac am eu brwdfrydedd a'u hegni wrth fynd i'r afael â gofynion a heriau newydd.

# Rhagarweiniad



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn fy nghyflwyniad i'r adroddiad blynyddol y llynedd, fe wnes i orffen drwy ddweud ein bod ni, fel staff y Comisiwn, yn wynebu heriau sylweddol o ran ymateb i lwyth gwaith cynyddol y Cynulliad.

Wrth i mi edrych ymlaen at yr her hon, dywedais fod gennyf hyder mewn gweithlu ymroddgar a gweithgar sy'n dilyn ei werthoedd.

Wrth edrych yn ôl nawr, rwy'n falch bod y cryfderau y gwnes i eu nodi 12 mis yn ôl wedi ein galluogi i gyflawni popeth a oedd ger ein bron a llawer mwy ar ben hynny. Fel staff y Comisiwn, rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith, yn teimlo'n angerddol am ein cyfleoedd i wneud gwahaniaeth, ac yn parchu ein gilydd: gwerthoedd sydd wedi'n tywys drwy gyfnod prysur a chynhyrfus.

Mae rhai newidiadau sylweddol wedi bod i'n trefniadau llywodraethu a rheoli yn ystod y flwyddyn. Wrth ddiolch yn gynnes i'n cynghorwyr annibynnol sy'n ymadael am eu cyfraniad sylweddol, rydym wedi croesawu nifer o gynghorwyr newydd sydd wedi dod â gwahanol brofiadau a mewnwelediad o'r newydd i roi sicrwydd a her i ni. Rydym wedi gwella ein strwythurau rheoli uwch ac wedi rhoi ffocws newydd i'n cyfrifoldebau wrth i ni benodi Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad newydd a pharatoi i recriwtio Cyfarwyddwr Ymgysylltu. Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ill dau wedi croesawu ein gwaith i wneud ein proses o osod y gyllideb yn fwy tryloyw, ac mae ein hadolygiad o gapasiti corfforaethol wedi arwain at nifer o welliannau cynyddol o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Roedd dylunio a chyflwyno ein Senedd Ieuenctid yn un o uchafbwyntiau mawr y flwyddyn ac rwy'n adleisio teyrnged y

Llywydd i'r rhai a wnaeth yn siŵr bod aelodau newydd Senedd Ieuenctid Cymru yn cael eu cefnogi a'u diogelu wrth iddynt gael eu traed oddi tanynt – a chodi eu lleisiau.

Mae gwaith ar Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru) hefyd wedi bod yn un o brif nodweddion y flwyddyn i lawer ohonom, yn gofyn am lefel uchel o broffesiynoldeb ac arbenigedd, gan fod gwahanol dimau'n darparu cyngor polisi a chymorth gyda gwaith craffu i Aelodau. Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn drom iawn i'r bwyllgorau, ac rydym wedi bod yn falch o hwyluso'u gwaith.

Rydym yn parhau i ymrwymo i wneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y Cynulliad yn lle diogel a chynhwysol i weithio ynddo ac ymweld ag ef. Rydym wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 'Creu'r Diwylliant Cywir', ochr yn ochr â pharhau i ddatblygu ein polisïau a'n prosesau ein hunain. Cefais fy nghalonogi gan yr ymateb cadarnhaol i'n gwaith yn ein harolwg staff blynyddol. Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym hefyd wedi rhoi mwy o gefnogaeth i'r Comisiynydd Safonau.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd wrth gyflawni ein hymrwymiad i ganiatáu i bobl weithio yn eu dewis iaith. Eleni, hoffwn dynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud o ran recriwtio a'i gwneud yn haws i ddarpar ymgeiswyr ddeall y gofynion iaith ar gyfer swydd benodol. I gefnogi hyn, rydym hefyd wedi cynyddu lefelau'r gefnogaeth i ddysgwyr Cymraeg.

Wrth i mi edrych ymlaen at y 12 mis nesaf, mae llawer o'r ansicrwydd yr oeddem yn ei wynebu ar ddechrau'r cyfnod hwn yn parhau, a bydd eu datrys yn llwyddiannus yn ein profi ni. Fodd bynnag, rwy'n fwy hyderus fyth nawr fod gan y Comisiwn yr adnoddau, yr ymroddiad, y sgiliau, y gwerthoedd a'r uchelgais ar y cyd i gyflawni popeth sy'n ofynnol ohono.

# Datganiad o ddiben

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi yng Nghymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Comisiwn y Cynulliad

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

## Nodau Strategol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad



Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf



Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad



Defnyddio adnoddau'n ddoeth

## EIN GWERTHOEDD



**PARCH**

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol.



**ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

## Blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad

- Caniatáu i'r Aelodau ragori yn eu rolau seneddol, gan ddarparu gwasanaethau ymatebol ac arloesol i'w cefnogi.
- Sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau a'r arbenigedd y mae eu hangen arno i gynrychioli buddiannau Cymru, wrth i'r DU ymadael â'r UE.
- Caiff y Cynulliad ei gefnogi yn y gwaith o gyflwyno diwygiadau cyfansoddiadol er mwyn creu senedd sy'n gweithio i Gymru.
- Sicrhau Senedd Ieuenctid sy'n uchelgeisiol ac yn ymgysylltiol, sy'n cyfoethogi'r Cynulliad, ac sy'n ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Sicrhau bod gwell dealltwriaeth o rôl y Cynulliad a'r broses o gymryd rhan, a ddangosir ar ffurf lefelau uwch o ymgysylltu.
- Cyfoethogi gwaith ac enw da'r Cynulliad, a hynny drwy ddatblygu a gwella ein cysylltiadau â seneddau ledled y byd.
- Sicrhau bod staff y Comisiwn yn teimlo eu bod yn rhan o'r un tîm, a bod pawb yn deall sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Comisiwn.
- Sicrhau bod yr holl Aelodau, staff ac ymwelwyr yn gallu gweithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu.
- Sicrhau bod rheolaethau cyllido, rheolaethau prosiectau a rheolaethau eraill yn caniatáu i'r Comisiwn gyflawni, a dangos gwerth am arian ym mhopeth a wnawn.

**BALCHDER**

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm.

**UN TÎM**
YDYM NI

# Y Comisiynwyr

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagnodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn penodi Comisiynwyr y Cynulliad, sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen i'r Cynulliad gyflawni ei waith yn effeithiol ar gyfer pobl Cymru.



**Elin Jones AC:** Plaid Cymru

**Etholwyd 11 Mai 2016 – Presennol**
Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad ac mae'n gyfrifol hefyd, fel Comisiynydd, am gyfathrebu ac ymgysylltu.

Mynychodd Elin 7 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Suzy Davies AC:** Ceidwadwyr Cymreig

**Penodwyd 9 Mehefin 2016 – Presennol**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mynychodd Suzy 7 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Joyce Watson AC:** Llafur Cymru

**Penodwyd 9 Mehefin 2016 – Presennol**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.

Mynychodd Joyce 7 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**David Rowlands AC:** UKIP Cymru 6 Mai 2016 – 20 Mai 2019
Plaid Brexit 20 Mai 2019 – Presennol

**Penodwyd 15 Tachwedd 2018 – Presennol**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ac adnoddau'r Cynulliad.

Mynychodd David 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Comisiwn.

Caiff y Comisiwn ei gadeirio gan y Llywydd, ac mae'n cynnwys pedwar Aelod Cynulliad sydd wedi cael eu hethol gan y Cynulliad. Mae gan bob aelod o'r Comisiwn bortffolio o gyfrifoldebau penodol ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Mae'r amrywiad yn nifer y cyfarfodydd y maent wedi'u mynychu yn deillio o'u cyfnodau perthnasol yn y rôl.



**Sian Gwenllian AC:** Plaid Cymru

**Penodwyd 22 Tachwedd 2018 – Presennol**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb am ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

Mynychodd Sian 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Caroline Jones AC:** UKIP Cymru

**Penodwyd 9 Mehefin 2016 – 4 Mehefin 2018**
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ac adnoddau'r Cynulliad.

Mynychodd Caroline 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Adam Price AC:** Plaid Cymru

**Penodwyd 22 Medi 2016 – 21 Tachwedd 2018**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb am ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

Mynychodd Adam 5 allan o 5 o gyfarfodydd y Comisiwn.

# Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr ac uwch-dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu herio mewn modd adeiladol ac yn cael sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.



**Keith Baldwin**
Tachwedd 2012 – Hydref 2018

Gwasanaethodd Keith fel aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ACARAC) a Phwyllgor Taliadau Comisiwn y Cynulliad. Daeth ei dymor i ben fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Hydref 2018.

Mynychodd Keith 3 allan o 3 o gyfarfodydd ACARAC a 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau.



**Helena Feltham**
Tachwedd 2012 – Hydref 2018

Gwasanaethodd Helena fel Cadeirydd Pwyllgor Taliadau Comisiwn y Cynulliad. Daeth tymor Helena i ben fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Hydref 2018.

Mynychodd Helena 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau.



**Eric Gregory**
Tachwedd 2012 – Chwefror 2019

Gwasanaethodd Eric fel Cadeirydd ACARAC ac aelod o'r Pwyllgor Taliadau. Daeth tymor Eric i ben fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Chwefror 2019.

Mynychodd Eric 4 allan o 4 o gyfarfodydd ACARAC a 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau.

Mynychodd yr holl Gynghorwyr Annibynnol yr holl gyfarfodydd yr oeddent yn gymwys i'w mynychu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'r amrywiad yn nifer y cyfarfodydd y maent wedi'u mynychu yn deillio o'u cyfnodau perthnasol yn y rôl.



**Hugh Widdis**
Tachwedd 2013 - Presennol

Mae Hugh wedi gwasanaethu fel Aelod o Bwyllgor ACARAC drwy gydol blwyddyn ariannol 2018-19. Disgwylir i dymor Hugh fel Cynghorydd Annibynnol ddod i ben ym mis Hydref 2019.

Mynychodd Hugh 5 allan o 5 o gyfarfodydd ACARAC.



**Ann Beynon**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Ann ei phenodiad fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae hi'n aelod o ACARAC a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC) sydd newydd ei sefydlu.

Mynychodd Ann 3 allan o 3 o gyfarfodydd ACARAC ac 1 allan o 1 o gyfarfodydd REWAC.



**Robert (Bob) Evans**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Bob ei benodiad fel Cynghorydd Annibynnol ac aelod o ACARAC ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi'n Gadeirydd ACARAC.

Mynychodd Bob 3 allan o 3 o gyfarfodydd ACARAC.



**Ceri Hughes**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Ceri ei phenodiad fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae hi'n aelod o REWAC.

Mynychodd Ceri 1 allan o 1 o gyfarfodydd REWAC

.



**Sarah Pinch**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Sarah ei phenodiad fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 a chafodd ei phenodi'n Gadeirydd REWAC.

Mynychodd Sarah 1 allan o 1 o gyfarfodydd REWAC.



**Dr Aled Eirug**
Ebrill 2019 - Presennol

Dechreuodd Aled ei benodiad fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 a bydd yn aelod o ACARAC.

Yn ystod 2018-19, daeth cyfnodau penodiad Eric Gregory, Helena Feltham a Keith Baldwin i ben. Bellach rydym wedi penodi pum Cynghorydd Annibynnol newydd, gyda phedwar ohonynt yn dechrau yn ystod 2018-19 a phumed yn dechrau ym mis Ebrill 2019.

Prif rôl y Cynghorwyr Annibynnol yw gweithredu fel aelodau o ACARAC neu'r Pwyllgor Taliadau. Mae penodi'r Cynghorwyr newydd yn gyfle i ni elwa o'u sgiliau penodol ac, o ganlyniad, rydym wedi ymestyn cylch gwaith y Pwyllgor Taliadau (a'i ail-enwi y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu – REWAC) i gynnwys goruchwyliaeth o'n strategaethau gweithlu ac ymgysylltu, gan gadw gyfrifoldeb ar yr un pryd am daliadau uwch swyddogion.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau a gwasanaethau yn y Cynulliad, gan weithredu fel cyfeillion beirniadol ar brosiectau ac weithiau'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

## Taliadau

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn cael tâl nad yw'n bensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, gyda £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.



# Uwch Arweinwyr Comisiwn y Cynulliad



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Comisiwn y Cynulliad yn dirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys cyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn amodol ar nifer o eithriadau ac amodau. Y Prif Weithredwr hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn. I'w chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am reoli corfforaethol strategol, yn ogystal â'r cyfrifoldebau penodol a amlinellir isod.



**Siwan Davies**
**Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**

Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Cynulliad, gan sicrhau bod busnes y Cynulliad yn cael ei gyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys pasio deddfwriaeth drwy'r Cynulliad a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau'r Cynulliad.

Cymerodd Siwan y rôl hon ym mis Chwefror 2019; Adrian Crompton oedd yn y rôl cyn hynny (gweler isod).



**Adrian Crompton**
**Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**

Ym mis Mawrth 2018, argymhellodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylid penodi Adrian Crompton yn Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac fe'i penodwyd yn ffurfiol i'r swydd gan Ei Mawrhydi y Frenhines; gadawodd y Comisiwn ar 20 Gorffennaf 2018.



**David Tosh**
**Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad**

Darparu TGCh, ystadau a chyfleusterau, swyddogaethau adnoddau dynol, caffael a llywodraethu a sicrwydd corfforaethol. Y Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, Nia Morgan, sy'n gyfrifol am y strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli cyllidebau, taliadau ac adroddiadau pensiynau i David Tosh.



**Craig Stephenson**
**Cyfarwyddwr Ymgysylltu**

Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r byrddau corfforaethol a'r Comisiwn, yn ogystal â rheoli cyfieithu chofnodi a'r cynllun ieithoedd swyddogol, ein hagenda urddas a pharch, cyfathrebu corfforaethol, diogelwch ac ymgysylltu ag ymwelwyr a gwasanaethau gwybodaeth i'r cyhoedd.



**Elisabeth Jones**
**Cyfarwyddwr a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol**

Darparu cyngor cyfreithiol lefel uchel ar draws ystod o swyddogaethau'r Comisiwn, gan ganolbwyntio ar newid cyfansoddiadol, materion allanol ac effaith ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

# Rheoli'r Comisiwn

## Ym mis Ebrill 2018, yn dilyn adolygiad manwl, sefydlwyd Bwrdd Gweithredol a Thîm Arweinyddiaeth i gymryd lle'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a'r Bwrdd Rheoli.

Caiff y Bwrdd Gweithredol ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant, y Pennaeth Cyfathrebu a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff penderfynu strategol ar gyfer yr holl faterion y mae'r Comisiwn yn eu dirprwyo. Mae hefyd yn gorff cynghori i'r Comisiwn, o ran pennu strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol a staffio'r Comisiwn yn cael eu cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa brosiectau'r Comisiwn, sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystâd, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a chyflwyno prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Elfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw cynnig trosolwg ac arweinyddiaeth strategol ar raglen newid y Comisiwn.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob Pennaeth Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arweinyddiaeth yw sicrhau bod blaenoriaethau a chynlluniau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Un gweithgaredd arwyddocaol yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd ymgymryd â chynllunio senarios er mwyn llywio sut y bydd y Comisiwn yn ymdrin â'r heriau a ddaw yn sgil Brexit a helpu i ddiwygio'r Cynulliad.

# Risg

Mae'r Comisiwn yn gweithredu proses rheoli risg drwy haenau, lle caiff risgiau eu nodi a'u rheoli ar lefel gwasanaeth neu brosiect, a'u hadolygu'n rheolaidd. Yna caiff risgiau sy'n dod yn rhai arwyddocaol eu trosglwyddo i risgiau corfforaethol i'r Cyfarwyddwr perthnasol fod yn berchen arnynt.

Caiff y dull gweithredu ar gyfer lliniaru risg ei sicrhau drwy adolygiad chwarterol y Bwrdd Gweithredol, ac mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad hefyd yn adolygu risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd, ac yn dewis risg benodol ar gyfer asesiad manwl. Drwy'r cyfnod hwn rydym wedi bod yn mynd ati i reoli risgiau corfforaethol yn y meysydd a ganlyn:

- capasiti corfforaethol y Comisiwn i gyflawni ei flaenoriaethau;
- urddas a pharch;
- sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru;
- diwygio'r Cynulliad;
- effaith ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y Cynulliad; a
- seiberddiogelwch a chydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

# Crynodeb o weithgaredd

**Ebrill 2018**

**Y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth:** Sefydlwyd Bwrdd Gweithredol a Thîm Arweinyddiaeth i gymryd lle'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau

**Y broses o newid y Prif Weinidog:** Cyhoeddodd Carwyn Jones AC ei fwriad i ymddiswyddo fel Prif Weinidog Cymru

**Mai 2018**

**Urddas a pharch:** Lansiwyd y polisi urddas a pharch

**Gorffennaf 2018**

**Gwasanaethau Ieithoedd Swyddogol:** Pennwyd matrics sgiliau iaith newydd ar gyfer siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu ar draws pum lefel, yn ogystal â diffiniad ar gyfer Cymraeg Lefel Cwrteisi

**Awst 2018**

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru:** Cynhaliodd y Cynulliad amrywiaeth o arddangosfeydd, trafodaethau a digwyddiadau yn archwilio bywyd yng Nghymru fel rhan o'r Eisteddfod Genedlaethol

**Hydref 2018**

**Brexit:** Lansiwyd tudalennau gwe Brexit y Cynulliad ('Hwb Brexit')

**Rhagfyr 2018**

**Senedd Ieuenctid Cymru:**
Cyhoeddwyd enwau Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru

**Y broses o newid y Prif Weinidog:**
Cynigiodd Carwyn Jones AC ei ymddiswyddiad ac fe wnaeth ei olynydd, Mark Drakeford AC, dyngu ei lw yn Brif Weinidog

**Ionawr 2019**

**Newid cyfansoddiadol:**
Cynhaliwyd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

**Chwefror 2019**

**Senedd Ieuenctid Cymru:**
Cynhaliwyd cyfarfod llawn cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru

**Mawrth 2019**

**Brexit:**
Am y tro cyntaf, fe wnaeth y Cynulliad a Senedd yr Alban drafod a bwrw pleidlais ar yr un cynnig (ar y trafodaethau ymadael â'r UE) ar yr un pryd


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Senedd

# DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

Mae'r adran dadansoddiad o berfformiad yn rhoi manylion am sut rydym wedi bwrw ymlaen â gwaith ar flaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad o dan ein nodau strategol.

## CEFNOGI'R CYFARFOD LLAWN

**13 Nifer y dadleuon Aelodau unigol**

**72 Nifer y Cyfarfodydd Llawn**

## CWESTIYNAU A OFYNNWYD YN Y CYFARFOD LLAWN

**40 Amserol**

**872 Llafar**

**1,751 Ysgrifenedig**

**4 Brys**

# DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF

Yn yr adran hon o'r adroddiad blynyddol, rydym yn disgrifio sut yr ydym wedi cyflawni busnes y Cynulliad.

## CEFNOGI DEDDFWRIAETH



Cyflwyno **6** Bil newydd



**4** Bil wedi'u pasio i ddod yn ddeddfau

## CEFNOGI'R PWYLLGORAU



**381** Cyfarfodydd Pwyllgor



**304** Adroddiadau pwyllgorau



# Cefnogi busnes y Cynulliad

## Er mai Brexit fu'r cefndir i lawer o waith y Cynulliad, rydym wedi parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni busnes y Cynulliad, gan gynnwys deddfwriaeth, drwy ddarparu gwasanaethau gweithdrefnol, ymchwil a chyfreithiol i Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgorau.

Bu ffocws cryf ar ymgysylltu, gydag ystod mor eang â phosibl o bobl a sefydliadau yn cyfrannu at waith deddfwriaethol a chraffu y pwyllgorau. Mae'r cynnydd yn nifer yr adroddiadau pwyllgorau a gynhyrchwyd eleni (304 o'i gymharu â 194 y llynedd) yn ganlyniad i'r llwyth gwaith mawr ychwanegol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit.



# Brexit

## Wrth i Gymru baratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae gan y Cynulliad rôl bwysig i'w chwarae wrth ofyn cwestiynau am newidiadau a fydd yn effeithio ar fywydau pobl Cymru.

Mae Brexit yn torri ar draws gwahanol sectorau a meysydd datganoledig ac mae'r Cynulliad a'i bwyllgorau wedi chwarae rhan lawn mewn deddfu ar gyfer Brexit a chraffu ar ei oblygiadau, fel a ganlyn.

- Cynhaliwyd nifer o Gyfarfodydd Llawn yn canolbwyntio ar fusnes cysylltiedig â Brexit. Ar 5 Mawrth 2019, am y tro cyntaf, fe wnaeth y Cynulliad a Senedd yr Alban drafod a bwrw pleidlais ar yr un cynnig ar yr un pryd (ar y trafodaethau ymadael â'r UE).

- Mae nifer o bwyllgorau'r Cynulliad wedi cynnal ymchwiliadau pellgyrhaeddol i effaith Brexit, gan ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chymryd tystiolaeth ganddynt. Fel y prif bwyllgor Brexit, mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi cynnal gwaith craffu helaeth yn edrych ar y goblygiadau yn sgil Cymru'n ymadael â'r UE er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu diogelu yn ystod y broses ymadael. Mae hefyd wedi taflu goleuni ar barotoadau Cymru ar gyfer Brexit mewn meysydd fel y sector gofal iechyd a meddyginiaethau, y sector bwyd a diod, a phorthladdoedd Cymru.

- Mae'r Cynulliad wedi trafod swm sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit, gan gynnwys Biliau Brexit y DU sydd angen cydsyniad datganoledig mewn meysydd fel masnach, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a threfniadau rhyngwladol ar gyfer gofal iechyd.

Drwy flaenoriaethu ein hadnoddau, rydym wedi sicrhau bod pwyllgorau'r Cynulliad ac Aelodau unigol yn cael eu cefnogi i ymdrin â busnes cysylltiedig â Brexit. Er enghraifft:

- Sefydlu Fframwaith Academaidd Brexit sydd wedi ein galluogi i gomisiynu darnau byr a phenodol o waith gan academyddion ar bynciau cysylltiedig â Brexit, gan gynnwys dadansoddiad technegol manwl o oblygiadau'r

Cytundeb Ymadael i Gymru[1]; adadansoddiad o effaith Brexit ar iechyd gwledig yng Nghymru a chyfres o sesiynau hyfforddi i'r Aelodau a staff ar fasnach ryngwladol.

- Meithrin cysylltiadau cryf â chydweithwyr seneddol ledled y DU i hwyluso rhannu gwybodaeth. Mae wedi bod yn hollbwysig i ni gysylltu'n rheolaidd â Seneddau eraill y DU drwy sianeli a arweinir gan Aelodau, a rhwng swyddogion ar bob lefel ac ar bob agwedd, gan gynnwys busnes arfaethedig a threfniadau yn y dyfodol ar gyfer gwaith rhyng-seneddol.

- Cydlynu ymgysylltiad y Cynulliad â sefydliadau'r UE a chynrychiolwyr ym Mrwsel drwy swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel.

- Lansiwyd hwb Brexit ar-lein y Cynulliad ym mis Hydref 2018 i gyfathrebu am y gwaith y mae'r Cynulliad wedi bod yn ei wneud. Mae'r hwb hwn yn cynnwys cyhoeddiadau sy'n ceisio hysbysu Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn gyffredinol am Brexit, gan gynnwys podlediadau rheolaidd ac erthyglau blog gan arbenigwyr pwnc, llinellau amser ffeithiol yn nodi gwahanol senarios, diweddariadau Brexit bob pythefnos ac adroddiadau monitro Brexit bob mis.

- Mae gwaith paratoadol ar rôl y Cynulliad o ran craffu ar Brexit y tu hwnt i fis Mawrth 2019 hefyd wedi bod yn mynd rhagddo.  Mae hyn yn cynnwys y mecanweithiau ar gyfer craffu ar fframweithiau cyffredinol, cytundeb rhynglywodraethol a chytundebau masnach, ond mae'n annhebygol y bydd y materion hyn yn dod yn glir tan o leiaf haf 2019.

Er i ni fod yn rhoi pwyslais ar gefnogi gwaith deddfwriaethol a gweithdrefnol y Cynulliad, mae asesiadau rheolaidd o effaith Brexit ar wasanaethau corfforaethol y Comisiwn hefyd wedi cael eu cynnal i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol ar draws ystod o wasanaethau.

1 https://www.assembly.wales/cy/newhome/pages/newsitem.aspx?itemid=1936

# Diwygio'r Cynulliad

## Gan adeiladu ar y cyngor annibynnol a ddarparwyd gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, cyflwynodd y Comisiwn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ym mis Ionawr 2019.

Mae'r Bil yn cynnig newid enw'r Cynulliad i'r Senedd, gan roi effaith i benderfyniad y Cynulliad y dylai ei enw adlewyrchu'n gywir ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol. Gan gofio na ddylai newid yr enw gael mwy o effaith ar wariant cyhoeddus nag sydd ei angen, bwriad y Comisiwn yw cadw'r costau sy'n gysylltiedig â newid arwyddion a phresenoldeb ar-lein y Cynulliad mor fach â phosibl.

Bydd y Bil hefyd yn gweithredu argymhelliad y Panel Arbenigol i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, cynnig a gymeradwywyd gan yr ymatebwyr i ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn, 'Creu Senedd i Gymru', a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2018. Mae'r cydweithrediad rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ar yr agwedd hon ar y Bil wedi cael ei ategu gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth, sy'n darparu fframwaith ar gyfer rhannu arbenigedd a sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau cyhoeddus.

Bwriad y Comisiwn yw y dylai'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ymgorffori yn y gyfraith hawl pobl ifanc 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2021. Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u hannog i arfer eu hawl i bleidleisio, mae'r Comisiwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i benderfynu sut i ddarparu addysg wleidyddol a dinasyddiaeth briodol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol.

Ymgysylltu pobl ifanc â democratiaeth yn gynharach a newid enw'r Cynulliad i'r Senedd yw cam cyntaf y broses ddiwygio y mae'r Comisiwn yn ei harwain. Fe wnaeth ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn ddechrau sgwrs â phobl Cymru ynghylch sut y dylent gael eu cynrychioli a'u gwasanaethu gan eu deddfwrfa yn y dyfodol. Roedd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, yn dangos bod y cyhoedd yn cefnogi argymhellion y Panel Arbenigol y dylid cynyddu maint y Cynulliad ac y dylid diwygio'r system ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad. Ail gam gwaith

diwygio'r Comisiwn yw ymchwilio i'r materion hyn, gan gynnwys a oes modd sicrhau consensws gwleidyddol.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i gadw cyfrifoldebau ar wahân rhwng y swyddogion sy'n cefnogi'r Llywydd fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, a'r rheini sy'n cefnogi'r Dirprwy Lywydd a'r pwyllgorau; er enghraifft, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid sy'n trafod y Bil ar hyn o bryd, i sicrau nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau. Mae staff yn fedrus ac yn brofiadol wrth weithio fel hyn drwy gefnogi Aelodau, pwyllgorau, a Biliau blaenorol y Comisiwn.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Cynulliad i ymateb i elfennau eraill sy'n llywio newid cyfansoddiadol; mae cyfiawnder yn faes pwysig sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ym mis Tachwedd 2017 i osod gweledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol y system gyfiawnder yng Nghymru. Ymysg materion eraill, mae'n ymchwilio i sut y byddai datganoli pwerau cyfiawnder yn dylanwadu ar waith y Cynulliad. Fel rhan o hyn, ym mis Mawrth 2019 fe wnaeth y Cynulliad groesawu'r Comisiwn ar Gyfiawnder wrth iddo gynnal cyfres o gyfarfodydd gyda'r Llywydd, Aelodau'r Cynulliad, ac uwch swyddogion y Cynulliad i drafod effaith unrhyw ddatganoli posibl o bwerau cyfiawnder.




WRTH DDWR A THAN

## Urddas a pharch

Rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd rhag aflonyddu, ac rydym yn disgwyl bod pawb, gan gynnwys ymwelwyr, Aelodau'r Cynulliad, staff yr Aelodau a staff Comisiwn y Cynulliad, yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Mae'r Comisiwn wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ddatblygu polisi urddas a pharch, a lansiwyd ym mis Mai 2018. Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei adroddiad: 'Creu'r Diwylliant Cywir', a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer y Comisiwn.

Rydym wedi trafod holl argymhellion y Pwyllgor a gyfeiriwyd at y Comisiwn, ac mae nifer o newidiadau a gwelliannau wedi cael eu cyflwyno:

- Rydym wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar draws y Comisiwn ac wedi ei ymwreiddio yn ein rhaglenni cynefino a datblygu proffesiynol.
- Drwy gynnal gwiriadau dienw, rydym wedi cael sicrwydd bod y tudalennau gwe urddas a pharch yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch.
- Mae ein swyddogion cyswllt yn darparu gwasanaeth pwysig y gellir ymddiried ynddo, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth emosiynol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr lle bo angen.
- Mae cymorth allanol arbenigol ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cwyn ynghylch aflonyddu rhywiol neu ymddygiad rhywiol amhriodol.
- Cynhelir arolwg urddas a pharch blynyddol sy'n cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch profiadau ac ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a'r prosesau cwynion. Mae'n cael ei anfon at Aelodau'r Cynulliad, eu staff, a staff y Comisiwn.

Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth ymhellach, ynghyd ag adolygiad parhaus o'n polisïau a'n harferion i sicrhau bod diwylliant o urddas a pharch yn parhau i fod yn rhan annatod o'r Cynulliad.

# Gwasanaethau dwyieithog

Mae llawer o'r gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar gyflawni'r thema gyntaf a amlinellir yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad, sef cynyddu lefel y sgiliau Cymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad ac adeiladu ar ein hethos diwyieithog presennol.

Ym mis Gorffennaf 2017, sefydlwyd gweithgor recriwtio mewn partneriaeth â'n hundebau llafur ar gyfer cyflawni'r thema. Flwyddyn yn ddiweddarach, ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaeth y gweithgor gwblhau ei waith a chyflawni newid mawr i'r ffordd y caiff pob swydd wag ei hysbysebu yn y Comisiwn.

Cytunodd y gweithgor ar fatrics sgiliau iaith o sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu ar draws pum lefel (mae manylion pellach am hyn ar gael yn ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol), yn ogystal â diffiniad ar gyfer lefel Cymraeg cwrteisi. Ar gyfer swyddi lle nad oes angen sgiliau iaith penodol, dynodir lefel cwrteisi yn awtomatig. Mae pob swydd arall yn defnyddio cyfuniad o lefelau sgiliau o'r matrics yn unol â gofynion y swydd a chapasiti dwyieithog presennol y tîm neu'r gwasanaeth.

O ganlyniad i'r newid hwn, mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi datblygu hyfforddiant Lefel Cymraeg Cwrteisi i gefnogi unigolion a thimau. Hefyd, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg neu i wella eu Cymraeg, a hynny ar bob lefel. Mae cyflwyno lefelau sgiliau iaith yn ogystal â Lefel Cymraeg Cwrteisi yn golygu bod y patrwm sgiliau iaith ar draws y sefydliad wedi newid. Mae'r dull hwn hefyd yn rhoi llawer mwy o gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg a fyddai wedi bod yn annhebygol o wneud cais o'r blaen am swyddi a ddisgrifir fel swyddi 'Cymraeg hanfodol'.

Ein nod yw annog pob aelod o staff i ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd ganddynt yn rhagweithiol fel bod ethos dwyieithog y sefydliad yn parhau i ffynnu'n naturiol.

Mae sawl sefydliad yng Nghymru wedi cysylltu â ni ac wedi ymweld â ni i drafod ein dull arloesol, gyda'r nod o ddatblygu system debyg.


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Senedd





## Steffan Lewis AC

Yn drist iawn, ar 11 Ionawr 2019, fe wnaethom ni golli un o'n Haelodau Cynulliad, Steffan Lewis AC.

Ymysg y teyrngedau iddo yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr, dywedodd Adam Price AC:

"Cenedl fach ydy Cymru, ond bob rhyw hyn, rŷm ni'n magu cawr... Roedd gan Steffan yr holl gyneddfau i fod, un diwrnod, yn dad i'r genedl. Yn anffodus, ni ddaw hynny i fod, ond bu'n fab perffaith i'r genedl."

Talodd y Llywydd, Elin Jones AC, y deyrnged hon:

"Am golled greulon, i'w deulu, ei blaid a'i wlad. Mi wnaeth Steffan Lewis argraff yn syth yn y Senedd. Roedd ganddo galon lân, gwên gynnes a gallu cynhenid. Pan siaradodd Steffan, gwrandawodd bawb. Ni'n dal i wrando, Steffan."

## RHANNU EIN GWAITH

**97,761** yn dilyn ar Twitter


**168,093** yn darllen Blog y Gwasanaeth Ymchwil

## YMGYSYLLTU Â PHOBL

**18** o ymweliadau allanol

**61** o ddirprwyaethau ymwelwyr mewnol

**223,090** yn ymweld ag Ystâd y Cynulliad




**6,950** yn mynychu digwyddiadau yn y Senedd fel rhan o Bafiliwn y Cymdeithasau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol

**7.6 miliwn** o gynulleidfa ar-lein yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol

# YMGYSYLLTU Â HOLL BOBL CYMRU A HYRWYDDO'R CYNULLIAD

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn amlygu'r gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a'i waith, a'i wneud yn fwy hygyrch i holl bobl Cymru

## CYNNWYS ERAILL YN EIN GWAITH



**9 darn o waith wedi'u comisiynu gan academyddion gan ddefnyddio Cytundeb Fframwaith Ymchwil Brexit**



**Dros 3,200 o ymatebion i ymgynghoriad y Comisiwn ar ddiwygio etholiadol**

# SENEDD IEUENCTID CYMRU

*Ar ôl i'r Cynulliad lofnodi'r Siarter Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn 2014, atebodd y galw gan bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, gan ymrwymo ym mis Hydref 2016 i sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru.*

Ymgynghorodd y Cynulliad â dros 5,000 o bobl ifanc yng Nghymru i helpu i benderfynu beth ddylai nodau, aelodaeth a gwaith Senedd Ieuenctid Cymru fod.

Ar 5 Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd enwau Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn dilyn pleidlais ar-lein arloesol. Mae'n Senedd o 60 o bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Etholwyd 40 ohonynt i gynrychioli etholaethau daearyddol, ac enwebwyd 20 arall gan sefydliadau ac elusennau. Bydd yr Aelodau'n gwasanaethu tymor dwy flynedd.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf gyda phob un o'r 60 o Aelodau ym Mae Caerdydd ar benwythnos 23-24 Chwefror, gyda'r Cyfarfod Llawn cyntaf yn cael ei gynnal yn y Siambr ac yn cael ei gadeirio gan y Llywydd, Elin Jones AC.

Trafodwyd amrywiaeth o faterion, gan arwain at bleidlais i gytuno ar y tri phrif fater i ganolbwyntio arnynt yng ngwaith y Senedd yn ystod ei thymor dwy flynedd.

Y tri mater a ddewiswyd gan Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru oedd:

- Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl
- Sbwriel a gwastraff plastig
- Sgiliau bywyd yn y cwricwlwm

Gan ystyried Cyfarfod Llawn cyntaf y Senedd Ieuenctid, dywedodd y Llywydd:

> *Bydd gennych chi ddylanwad ar ran eich pobl ifanc, ar ran y pynciau niferus rydych chi'n teimlo mor angerddol amdanynt, ac rydw i wedi teimlo'r angerdd hwnnw yn y Siambr hon heddiw.*
>
> *Rydych chi wedi adfer fy ngobaith a fy nghred bod democratiaeth Cymru yn fyw ac iach, a'i bod yn fyw a iach ym mhopeth yr ydych chi'n ei ddweud wrthym ni.*
>
> **Elin Jones AC**
> Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru




WELSH YOUTH PARLIAMENT

SENEDD IEUENCTID CYMRU

# Eisteddfod Genedlaethol Cymru

## Rhwng 3 ac 11 Awst 2018, roedd y Cynulliad yn falch o gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol, gyda'r Senedd yn dod yn gartref i'r Lle Celf a Phafiliwn y Cymdeithasau, ac ar draws yr ystâd fe wnaethom ni gynnal nifer o arddangosfeydd, trafodaethau a digwyddiadau.

Roedd y trafodaethau'n ymdrin â materion yn cynnwys cyni cyllidol, rôl menywod mewn gwleidyddiaeth, pleidleisiau yn 16, democratiaeth a'r celfyddydau, diwygio etholiadol a chyfiawnder yng Nghymru, gyda bron 7,000 o bobl yn mynychu digwyddiadau ym Mhafiliwn y Cymdeithasau yn ystod yr wythnos. Hefyd, darlledwyd y sesiynau hyn ar Facebook Live, a oedd yn galluogi pobl o bob cwr o'r byd i gymryd rhan.

Y Pierhead oedd cartref Shw'mae Caerdydd – y ganolfan ar gyfer gwybodaeth am y Gymraeg.

Gyda'r fath ŵyl genedlaethol arwyddocaol yn cael ei chynnal yn llythrennol ar ein carreg ddrws, roedd hyn yn gyfle gwych i annog ymwelwyr i ddysgu am y Cynulliad a'i waith, gan gynnwys: rôl, swyddogaeth a phwerau'r Cynulliad a'i Aelodau, gwaith y Cynulliad ar ddiwygio etholiadol, a sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru.

Rydym ni'n gwybod, o'n harolwg dilynol i ymwelwyr, ein bod wedi sicrhau newid yn lefelau ymgysylltiad ymwelwyr, gyda'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn gwybod mwy am y Cynulliad o ganlyniad i'w hymweliad.




Cynulliad Cened
National Assem



# Ymgysylltu â dinasyddion – cefnogi pwyllgorau

## Mae Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Comisiwn yn gweithio gyda phwyllgorau'r Cynulliad i gasglu gwybodaeth er mwyn deall agweddau, barn ac ymddygiad y cyhoedd.

Drwy ymgysylltu'n effeithiol, rydym yn annog cyfraniadau gan gynulleidfaoedd mwy amrywiol ac anodd eu cyrraedd, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad byw, defnyddwyr gwasanaethau a staff rheng flaen. Drwy'r cyfnod hwn, rydym wedi ymgysylltu â dinasyddion ar gyfer amrywiaeth o ymchwiliadau pwyllgorau, ac mae'r enghreifftiau isod yn amlygu'r cyfraniad a'r mewnwelediad y mae'r gwaith hwn yn eu cynnig:

### Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Fel rhan o waith craffu ar ôl y broses ddeddfu gan y Pwyllgor ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fe wnaethom ni gynnal 12 grŵp ffocws ledled Cymru i'r rheini sy'n gofalu am bobl ag amrywiaeth o gyflyrau ac anableddau. Fe ddaeth dros 130 o bobl i'r grwpiau ffocws. Fe wnaethom ofyn a oedd y gyfraith newydd wedi gwella'r cymorth sydd ar gael a pha heriau yr oeddent yn eu hwynebu o hyd. Cafodd y profiadau a rannwyd â ni eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Gwahoddwyd cyfranogwyr o'r grwpiau ffocws i wylio sesiynau tystiolaeth dilynol gyda Llywodraeth Cymru ac maent wedi rhoi adborth ac awgrymiadau ar y newidiadau pellach sydd eu hangen i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu.

### Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Er mwyn helpu'r Pwyllgor i ddeall manteision a heriau cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn well, fe wnaethom ni gynnal arolwg er mwyn i ddisgyblion ysgolion uwchradd a rhieni rannu eu profiadau, a daeth dros 1,220 o ymatebion i law. Hefyd, fe wnaethom ni gynnal sesiynau grwpiau ffocws gyda phobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed o wahanol rannau o Gymru. Yn ddiweddar, lansiodd y Pwyllgor ei adroddiad ac fe wnaethom ni wahodd rhai o'r disgyblion a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws i drafod y materion, a'r adroddiad, ar banel yn y digwyddiad lansio.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Cynhaliwyd grwpiau ffocws ynghylch gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth gyda mamau yng Nghaerdydd, lle gwnaethom drefnu creche i alluogi menywod i ddod â'u plant ifanc. Hefyd, crëwyd fforwm trafod ar-lein lle gallai cyfranogwyr rannu eu barn a'u syniadau. Roedd y cyfranwyr yn cynnwys mamau ifanc, mamau sengl, a mamau o gartrefi ag incwm isel – roedd rhai ohonynt mewn gwaith, rhai'n rhan-amser neu ar gontractau dim oriau, ac eraill yn ddi-waith. Daeth y gwaith ymgysylltu a'r ymchwiliad i ben gyda dau o'r mamau yn cynnal digwyddiad Facebook Live gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn ei holi am yr adroddiad.



# Dathlu llwyddiant yn y byd chwaraeon

## Tour de France - Geraint Thomas

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, un o'r uchafbwyntiau mawr oedd y digwyddiad i groesawu Geraint Thomas adref, a gynhaliwyd ar risiau'r Senedd. Ar 9 Awst 2018, o flaen torfeydd mawr yn eu bonllefau, croesawyd Geraint Thomas, y Cymro cyntaf i ennill y Tour de France, i'r Cynulliad er mwyn i'r Llywydd a'r Prif Weinidog gael diolch iddo ar ran pobl Cymru.



## Y Chwe Gwlad

Ar 18 Mawrth, cafodd tîm rygbi buddugoliaethus Cymru dderbyniad yn y Senedd, o flaen cannoedd o gefnogwyr, i nodi eu buddugoliaeth ym Mhencampwriaeth Guinness y Chwe Gwlad 2019. Cipiodd y tîm y Gamp Lawn ar ôl curo Iwerddon 25-7 yn Stadiwm y Principality, gan ymestyn eu record ddi-guro i 14 gêm.

Cafodd y garfan, y staff, y tîm rheoli a swyddogion URC eu croesawu a'u llongyfarch gan y Dirprwy Lywydd, Ann Jones AC, a'r Prif Weinidog, Mark Drakeford AC.



# Ymweliadau rhyngwladol

## Mae'r Cynulliad yn parhau i chwarae rôl weithgar o ran hyrwyddo democratiaeth Cymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol yng Nghymru a thu hwnt, a thrwy ymgysylltiad gweithgar, mae wedi gallu dangos bod y Cynulliad yn senedd flaengar ac arloesol.


Yn dilyn gwahoddiad gan y Llefarydd Jan Peumans, arweiniodd y Llywydd ymweliad y Comisiwn â Senedd Fflandrys ym mis Mehefin 2018. Roedd y rhaglen yn gyfle i ddysgu mwy am seneddau ein gilydd ac i gyfnewid arferion da. Yr ymweliad hwn oedd ffrwyth ymgysylltiad parhaus rhwng deddfwrfeydd Cymru a Fflandrys, a ddechreuodd yn sgil ein haelodaeth ar y cyd o Gynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE).

Rydym wedi cynorthwyo seneddau Botswana a'r Gambia, gyda ffocws ar rannu arbenigedd y Cynulliad i ddatblygu gwasanaethau ymchwil effeithiol. Cafodd y Llywydd adborth cadarnhaol o'r gwaith y mae'r Cynulliad wedi'i wneud gyda senedd Botswana yn ystod ymweliad â Gaborone ym mis Chwefror 2019.

Un o uchafbwyntiau ein gweithgarwch mewnol oedd croesawu ymweliad ym mis Tachwedd 2018 gan oddeutu 60 o gynrychiolwyr, a oedd yn cynrychioli dros 30 o ddeddfwrfeydd gwahanol o bob rhanbarth o'r Gymanwlad. Cyflwynwyd y rhaglen fel rhan o seminar ehangach mewn partneriaeth â Senedd y DU. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cynrychiolwyr a ddaeth ar yr ymweliad. Roedd y rhaglen yn gyfle gwych i hyrwyddo'r Cynulliad fel deddfwrfa fach ond arbennig a blaengar y gall eraill ddysgu ganddi.

Mae'r Cynulliad yn parhau i fod â chysylltiadau gwaith da gyda sefydliadau rhyngwladol megis Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a Sefydliad Democratiaeth San Steffan (WfD) i hyrwyddo llywodraethu da o fewn democratiaethau sy'n esblygu ac yn datblygu.

## CYNULLIAD RHYNGWLADOL



### Ymweliadau mewnol 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019

- Nepal
- Bermwda
- Periw
- Seland Newydd
- Canada
- Armenia
- Croatia
- Lithwania
- Sbaen
- Awstralia
- Yr Unol Daleithiau
- De Affrica
- Y Balcanau Gorllewinol
- Gambia
- Y Swistir
- Paraguay
- Ffrainc
- Gwlad Belg
- Malaysia
- Estonia
- Botswana
- Uzbekistan
- Yr Almaen
- Somalia
- Fiet-nam
- Hwngari
- Yr Eidal
- Gwlad Thai
- India
- Y DU
- Iwerddon

### Ymweliadau allanol 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019

- Sbaen
- Gwlad Belg
- Botswana
- De Affrica
- Y DU
- Iwerddon

# Paratoi i nodi 20 mlynedd o ddatganoli

6 Mai 2019 oedd union 20 mlynedd ers i bobl Cymru fynd i bleidleisio am y tro cyntaf erioed yn etholiadau'r Cynulliad.

Mae'r Comisiwn wedi cynllunio cyfres o ddigwyddiadau i'w chynnal rhwng mis Mai a mis Medi i gydnabod yr achlysur arbennig hwn.

> *Mae'r dathliad hwn yn gyfle unigryw i ystyried faint mae Cymru wedi newid dros yr ugain mlynedd diwethaf a'r effaith y mae datganoli wedi'i chael ar ein bywydau. Wrth wneud hynny, mae gennym gyfle hefyd i edrych tua'r dyfodol. Drwy'r rhaglen hon o ddigwyddiadau, ein nod yw dechrau deialog newydd gyda phobl ledled y wlad am eu huchelgeisiau ar gyfer Cymru a sut y gall y Cynulliad, cartref democratiaeth Cymru, helpu i gyflawni hynny.*
>
> **Elin Jones AC**
> Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

20 DATGANOLI DEVOLUTION



Trosolwg
Dadansoddiad o berfformiad
Atebolrwydd
Datganiadau ariannol

## CYFRIFOLDEB ARIANNOL




**38% o wariant caffael gyda chyflenwyr o Gymru**

**0.5% yw rhagolwg y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn**




## CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL



**Gostyngiad o 42% yng nghyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr crynswth o'i gymharu â llinell sylfaen 2012-13**

**Gostyngiad o 55% yng nghyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr crynswth o'i gymharu â llinell sylfaen 2012-13**






**100% o ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi**

# DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn dangos sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Cynulliad a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

## DYFARNIADAU AC ACHREDIADAU



# Ein pobl

## Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr gan eu bod yn hanfodol i gyflawni nodau strategol, strategaeth gorfforaethol a gwerthoedd y Comisiwn.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu dull gweithredu strategol newydd, gan ymgynghori a chytuno arno, er mwyn rhoi ffocws clir ar flaenoriaethau pobl y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad a thu hwnt. Rydym wedi nodi pedwar nod rhyngberthynol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac ymwreiddio ein gwerthoedd a'n hymddygiadau ymhellach:

- Rydym eisiau denu, cadw a chydnabod yr ystod ehangaf o dalent;
- Rydym eisiau sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i ymateb i flaenoriaethau sy'n newid;
- Byddwn yn meithrin gallu sefydliadol drwy ddiwylliant arwain a rheoli sy'n cael lywio gan werthoedd; a
- Rydym eisiau mynd ati'n barhaus i ddatblygu diwylliant gwaith sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cefnogi iechyd a llesiant holl gyflogeion y Comisiwn.



# Cynllunio capasiti

## Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cwblhau adolygiad sefydliadol o gapasiti i roi sicrwydd i'r Comisiwn bod y strwythur a lefelau adnoddau staff yn briodol, a hefyd i nodi cyfleoedd i wneud y sefydliad yn fwy effeithlon ac effeithiol. Roedd dau gam i'r adolygiad, yn canolbwyntio ar y ddau amcan hyn.

**Roedd y cam cyntaf**, drwy astudiaeth helaeth o 'sut yr ydym yn gwneud pethau', wedi'i gefnogi gan waith cymharu a meincnodi, yn rhoi sicrwydd nad yw lefelau adnoddau'r Comisiwn yn ormodol am ei gyfrifoldebau, ac yn benodol gan fod gofyn i ni ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Nododd y cam hwn nifer o 'themâu' i ddatblygu camau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

- Cytundeb ar flaenoriaethau'r Comisiwn;
- Cynllunio a darparu yn well;
- Mwy o hyblygrwydd o ran capasiti a gallu; a
- Datblygu dealltwriaeth a rennir o'n diben.

Fe wnaeth grŵp llywio roi sylw i'r themâu hyn **yng ngham dau**, gan nodi mwy nag 20 o gamau gweithredu a oedd yn cynnwys y canlynol, sydd bellach wedi'u cyflawni:

- Cyfres ddiwygiedig o flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn, er mwyn egluro diben a ffocws ein gwaith.
- Rydym wedi gweithio gyda'n staff i ddatblygu a chytuno ar set newydd o werthoedd sefydliadol.
- Rydym wedi sefydlu ymgysylltiad mwy rheolaidd â chadeiryddion y Pwyllgorau i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau. Yn benodol, mae hyn wedi ein cynorthwyo i reoli gofynion Brexit ochr yn ochr â meysydd gwaith eraill y pwyllgorau.
- Rydym wedi cyflwyno cylch cynllunio blynyddol newydd.
- Rydym wedi cyflwyno offeryn a phroses ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiadau ar sail meini prawf penodol, er mwyn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau, ac rydym wedi gwneud defnydd helaeth o hyn drwy gydol y flwyddyn.
- Rydym wedi cyflwyno rhai newidiadau ar unwaith i bolisïau staffio er mwyn sicrhau mwy

o hyblygrwydd ac rydym wedi gwella ein gallu i reoli a rhagweld adnoddau staff. O ganlyniad, llwyddwyd i ddiwallu ein holl anghenion adnoddau ychwanegol yn 2018, drwy ail-flaenoriaethu ac ailddyrannu swyddi gwag ac rydym wedi gwneud hyn o fewn ein sefydliad presennol.

- Rydym wedi sefydlu rhwydwaith ymgysylltu â staff mewn ymateb i geisiadau gan staff.

## Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cytunodd y Comisiwn ar gynllun ymadael gwirfoddol, gyda'r amcanion a ganlyn: creu capasiti i newid y sgiliau a'r cyfuniad o brofiad sefydliadol sydd eu hangen i gefnogi'r Cynulliad, gwella effeithlonrwydd, creu lle ar gyfer newid sefydliadol a, lle bo'n bosibl, sicrhau arbedion hirdymor neu osgoi costau ychwanegol wrth ymdrin â phrinder sgiliau.

Trafodwyd 43 o geisiadau gan y panel, a oedd yn cynnwys un o Gynghorwyr Annibynnol y Comisiwn ac arsylwr yr undebau llafur. Cymeradwywyd 24 o'r ceisiadau a bydd y staff hyn yn ymadael erbyn mis Medi 2019. Roedd dau ymadawiad ar lefel cyfarwyddwr, a chafodd y ddau achos busnes o blaid eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet.

Cost gyffredinol y cynllun yw £1.016m, a oedd o fewn y gyllideb y cytunwyd arni ac o fewn cyllideb gymeradwy Swyddfa'r Cabinet o £1.5m.

Ar bob cam o'r cynllun ymadael gwirfoddol, rydym wedi ystyried argymhellion a godwyd yn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac adroddiadau archwilio mewnol blaenorol. Hefyd, fe wnaethom ni sicrhau bod sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ar gael drwyddi draw.

## Cefnogi llesiant

Rydym wedi parhau â'n gwaith i leihau absenoldeb oherwydd salwch drwy gefnogi staff a rheolwyr llinell i reoli effaith absenoldeb tymor byr a thymor hir. O ganlyniad, rydym wedi gweld gostyngiad yn y gyfradd flynyddol, o 3.77% i 3.66%.

Bu ffocws parhaus hefyd ar lesiant meddwl, gan gynnwys sesiynau llesiant ar gyfer staff y mae hyn yn effeithio arnynt a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu yn y cartref, codi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl ymysg pobl ifanc, a chyflwyno cynorthwywyr cymorth cyntaf hyfforddedig. Rydym yn credu y bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau gostyngiad mewn absenoldeb sy'n cael ei briodoli i salwch meddwl.

# Ehangu cynhwysiant drwy recriwtio

Er mwyn denu'r ystod ehangaf o dalent, rydym wedi adnewyddu'r ffordd rydym yn recriwtio. Mae hyn wedi cynnwys ail-ddylunio hysbysebion, newid y delweddau rydym yn eu defnyddio i arddangos y Cynulliad fel lle i weithio a naratifau byrion i ddisgrifio ein diwylliant, ein pobl a'n cynwysoldeb.

Yn achos ein cynllun prentisiaeth yn 2018, fe wnaethom ni ymgysylltu â rhaglen allgymorth cymunedol a'r gymuned BAME leol i ddenu ystod mwy amrywiol o ymgeiswyr, a hynny'n effeithiol – mae canlyniadau ymgyrchoedd diweddar wedi dangos cynnydd yn amrywiaeth, nifer ac ansawdd y ceisiadau.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2018-2019 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ein gwaith yn y maes hwn, yn ogystal â data monitro cysylltiedig am amrywiaeth y gweithlu a recriwtio, a'n data adrodd ar gyflog cyfartal a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.  Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan.

Mae rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys:

- Cyflwyno polisi urddas a pharch newydd i'r Cynulliad;
- Gweithio gyda thîm Senedd Ieuenctid Cymru i adeiladu Senedd Ieuenctid gynhwysol, gyntaf i Gymru, gan ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant yn ei chynllun cychwynnol a thu hwnt;
- Stonewall UK yn enwi'r sefydliad ymhlith y pum cyflogwr gorau o staff LHDT yn y DU am y bumed flwyddyn yn olynol.  Mae Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle blynyddol diweddaraf Stonewall hefyd wedi enwi ein sefydliad y cyflogwr gorau yng Nghymru ac wedi ei gydnabod fel y partner traws-gynhwysol gorau, a sefydliad rhagorol am barhau i fod ar ben y mynegai;
- Ennill Gwobr Aur Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) Cymru 2018 am y fenter amrywiaeth a chynhwysiant (gwneud ein gweithlu'n fwy amrywiol) a gwobr arian Training Journal 2018 am y rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant orau, yn cydnabod ein ffordd gynhwysol o ddylunio a chyflawni ein cynllun prentisiaeth 2018;

- Ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru i annog cyfranogiad democrataidd a hyrwyddo'r Cynulliad fel cyflogwr o ddewis, gan gynnwys digwyddidau yn y Rhyl i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Pride Cymru, Mis Hanes Pobl Dduon, a hyrwyddo'r Senedd Ieuenctid gyntaf i Gymru. Rydym hefyd wedi hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant y tu allan i Gymru yn y Gyngres Ryngwladol Cawcysau Menywod Seneddol yn Nulyn ym mis Medi 2018, lle mai ein thema oedd 'Ein gweledigaeth ar gyfer menywod yn 2118'.

- Mae ein pwyllgorau wedi cynnal nifer o ymchwiliadau yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys: effaith penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru ar gydraddoldebau, plant a phobl ifanc, y Cynllun Bathodyn Glas, effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ofalwyr, a chraffu ar Fil Awtistiaeth (Cymru). Hefyd, cafwyd amrywiaeth o ddeisebau yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant sydd wedi cael eu trafod gan Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad.



# Trefniadau rheoli ariannol ein cyllideb

## Mae'n rhaid i'r Comisiwn ddarparu'r Cynulliad â'r staff, eiddo a gwasanaethau sydd eu hangen i hybu ei rôl fel deddfwrfa gref, hygyrch a blaengar sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn llwyddiannus.

Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu am gostau rhedeg y Cynulliad, yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, fel y pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a'r adborth y mae wedi'u cael gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid. Wrth ddatblygu ei strategaeth gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2019-20, gwnaeth y Comisiwn newidiadau pellach i'r ffordd y mae'n cyflwyno dogfen y gyllideb er mwyn gwneud ei broses gyllidebu yn fwy tryloyw.

Hefyd yn ystod 2018-19, trafododd y Pwyllgor Cyllid Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2019-20 yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2018. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ac ymateb y Comisiwn, gosodwyd Cyllideb 2019-20 ar 7 Tachwedd 2018 a chytunwyd arni drwy gynnig y Cynulliad ar 14 Tachwedd 2018.





Trosolwg
Dadansoddiad o berfformiad
Atebolrwydd
Datganiadau ariannol

# Datblygu Cynaliadwy a Chenedlaethau'r Dyfodol

Mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu gwaith craffu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae craffu ar y gyllideb yn arbennig wedi canolbwyntio ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws amrywiaeth o adrannau i gyflawni amcanion trawsbynciol, gyda phob pwyllgor yn gofyn i Weinidogion am dystiolaeth ysgrifenedig am sut mae eu cyllidebau wedi newid yng ngoleuni'r Ddeddf.

Hefyd, gwahoddir Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i roi tystiolaeth bob blwyddyn fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gyllideb Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag i nifer o bwyllgorau eraill er mwyn craffu ar agweddau ar ei gwaith sy'n ymwneud â phortffolios pwyllgorau. Cynigiodd y Gwasanaeth Ymchwil a Swyddfa'r Comisiynydd sesiwn hyfforddi ar y cyd i staff cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft er mwyn sicrhau dealltwriaeth ehangach o sut mae'r Comisiynydd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddangos y ffordd y mae'n cymhwyso'r Ddeddf. Fe wnaeth y Comisiynydd ysgrifennu blog gwâdd ar gyfer y Gwasanaeth Ymchwil ar y pwnc hwn.

Nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi'i restru fel corff cyhoeddus



at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud ein dadansoddiad ein hunain ac yn gallu nodi enghreifftiau da o gyfraniadau yr ydym yn eu gwneud tuag at saith nod llesiant Cymru, fel a ganlyn:

- **Cymru lewyrchus** – bod yn gyflogwr cyflog byw ac ymestyn hyn i'r rheini sy'n gweithio ar ein hystâd ond nad ydym yn eu cyflogi'n uniongyrchol;
- **Cymru gydnerth** – gweithio gyda'n cyflenwyr i gael gwared ar blastigau untro yn raddol, lle bynnag y bo modd;
- **Cymru iachach** – darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl i'n holl staff drwy'r sefydliad Amser i Newid Cymru;
- **Cymru fwy cyfartal** – cyhoeddi data am gyflog cyfartal a bod yn agored a thryloyw gyda'r hyn yr ydym yn ei adrodd;
- **Cymru o gymunedau cydlynus** – sicrhau bod ein hystâd eiconig ar gael i grwpiau a sefydliadau elusennol o bob cwr o Gymru, er mwyn iddynt allu codi eu proffil, ac ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill;
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – datblygu ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol, gan gynnwys annog staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan wisgo'r symbol Iaith Gwaith ar eu cortynnau gwddf i ddangos lle mae modd defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd; a
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – mesur, monitro ac adrodd ar ein heffaith amgylcheddol a datblygu strategaethau i leihau hyn ymhellach drwy ddefnyddio mwy o ynni gwyrdd, lleihau teithio gan staff a chyflwyno cronfa o geir trydan a mannau gwefru ceir trydan.



# Effeithiau amgylcheddol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynwyd sawl menter amgylcheddol o amgylch yr ystâd, gan gynnwys darparu pedwar man gwefru cerbydau trydan a char trydan i'w rannu. Rydym hefyd wedi gosod cychod gwenyn ar do adeilad y Pierhead, i helpu i wella bioamrywiaeth amgylchedd yr adeilad.

Mae gwaith wedi parhau i osod technoleg sy'n fwy effeithlon o ran ynni, a fydd yn golygu bod modd sicrhau gostyngiadau pellach mewn allyriadau a gwneud arbedion cost.

Roedd plastig yn bwnc pwysig yn 2018-19 ac rydym wedi cael gwared ar blastig untro lle bynnag y bo modd o'n ffreutur staff a chaffi'r Senedd.  Rai blynyddoedd yn ôl, fe wnaethom ni gymryd camau i gael gwared ar y defnydd o gwpanau coffi tafladwy ar yr ystâd.

Mae ein lefel gyffredinol o allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng eto eleni.

Mae ein gwaith amgylcheddol yn parhau o dan system reoli sy'n cael ei hardystio'n ffurfiol (ISO14001), sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS.

Ceir crynodeb o'n perfformiad isod, ochr yn ochr â'r data ystadegol gofynnol, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad amgylcheddol blynyddol, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Ynni

Rydym wedi gweld cynnydd bach yn y defnydd o drydan eleni, yn bennaf oherwydd y cyfnod estynedig o dywydd poeth yn ystod haf 2018 a'r cynnydd o ganlyniad yn y defnydd o'r system aerdymheru.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn costau ynni yn bennaf o ganlyniad i gynnydd ym mhrisiau unedau.  Rydym yn parhau i brynu ynni drwy'r Cynllun Caffael Cenedlaethol, yn unol â'r rhan fwyaf o weddill sector cyhoeddus Cymru.

Rydym wedi parhau i osod mesurau arbed ynni ar draws yr ystâd, gan gynnwys mwy o oleuadau LED a systemau aerdymheru mwy newydd ac effeithlon, gyda'r gobaith o weld y budd o'r rhain yn ystod haf 2019.

## Gwastraff ac adnoddau

Mae llai o wastraff wedi cael ei gynhyrchu dros y cyfnod hwn. Unwaith eto, nid ydym wedi anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi; caiff ein holl wastraff yn ei ailgylchu lle bo hynny'n bosibl, gyda chanran fach ohono'n cael ei anfon ar gyfer adfer ynni.

Mae'r defnydd o ddŵr yn debyg i flynyddoedd blaenorol ac mae'n amrywio mewn ymateb i ffactorau gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ym Mae Caerdydd.

Rydym wedi defnyddio mwy o fiomas eleni, gan arwain at ôl-troed carbon llai ar gyfer gwresogi'r Senedd.

Mae ychydig yn llai o bapur wedi cael ei ddefnyddio o'i gymharu â'r llynedd.

## Teithio

Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i alluogi teithio carbon isel. Rydym newid y car i'w rannu i fod yn gerbyd trydan; mae hyn yn arbed sawl tunnell o allyriadau carbon ac mae'n rhatach i'w redeg. Rydym wedi gosod mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i ateb y galw ac annog mwy o staff a chontractwyr i fanteisio ar yr opsiwn carbon isel hwn.

Mae beiciau i'w rhannu hefyd wedi cael eu cyflwyno, er mwyn hwyluso teithio di-allyriadau yn lleol, ac er mwyn annog pobl i feicio.

Mae ein perfformiad o ran teithio busnes yn cyd-fynd â'r llynedd ac rydym wedi sefydlu 'targed ymestyn' newydd i ysgogi gwelliant.



| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** [2,3,4] | | ***2012-13 (llinell sylfaen)*** | ***2015-16*** | ***2016-17*** | ***2017-18*** | ***2018-19*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | *Cyfanswm cwmpas yr allyriadau crynswth*[5] | 329 | *248* | *308* | *297* | *237* |
| | *Cyfanswm cwmpas yr allyriadau crynswth* [6] | 1,470 | *1,367* | *1,133* | *955* | *732* |
| | *Cyfanswm cwmpas yr allyriadau crynswth* [7] | 432 | *423* | *396* | *344* | *188* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau sydd y tu allan i gwmpas* | 298 | *7* | *4.1* | *5.3* | *7.4* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau crynswth* | 2,588 | *2,047* | *1,846* | *1,601* | *1,167* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau net* | 2,290 | *2,040* | *1,841* | *1,596* | *1,159* |
| Gwariant ar fentrau gwrthbwyso achredig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso'r Llywodraeth) | | £0 | *£0* | *£0* | *£0* | *£0* |
| Dangosyddion Ariannol (£) | *Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon* | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |

[2] Mae'r holl ddata ynghylch ynni yn cynnwys yr allyriadau trawsyrru a dosbarthu cyfredol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle y bo'n berthnasol.

[3] Mae'r holl ddata ynghylch teithio bellach yn cynnwys ffigurau'r holl allyriadau o'r ffynon i'r tanc cyfredol ac ôl-weithredol ar gyfer defnyddio tanwydd.

[4] Ac eithrio teithio gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ym mis Chwefror a mis Mawrth 2018 oherwydd oedi o ran gofynion adrodd. Mae blynyddoedd blaenorol wedi'u haddasu wrth i'r hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[5] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.

[6] Mae'r holl ddata ynghylch ynni yn cynnwys yr allyriadau trawsyrru a dosbarthu cyfredol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle y bo'n berthnasol.

[7] Mae'r holl ddata ynghylch teithio bellach yn cynnwys ffigurau'r holl allyriadau o'r ffynnon i'r tanc cyfredol ac ôl-weithredol ar gyfer defnyddio tanwydd.

| Y defnydd o ynni [8,9] | | 2012-13 (llinell sylfaen) | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (oriau cilowat) | Trydan (anadnewyddadwy) | 3,194,890 | 2,791,282 | 2,623,244 | 2,602,054 | 2,572,324 |
| | Nwy | 1,741,299 | 1,214,901 | 1,481,681 | 1,452,075 | 1,314,772 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 840,438 | 535,050 | 308,850 | 409,770 | 492,420 |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 1,880 | 1,663 | 1,563 | 1,363 | 1,066 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Cyfanswm gwariant ar ynni | 458,168 | 407,442 | 377,993 | 431,187 | 467,404 |

| Cynhyrchu gwastraff | | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli) | Cyfanswm y gwastraff | 125 | 123 | 140 | 142 | 128 |
| | Ailgylchu/Adfer | 119 | 118 | 136 | 142 | 124 |
| | Adfer ynni | - | - | - | 4.04 | 4.07 |
| | Tirlenwi | 4.7 | 3.7 | 5 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 5.5 | 12.5 | 15.9 | 17 | 17 |
| | Gwastraff peryglus | 1 | 0.4 | 0.15 | 0.4 | 0.3 |
| | Papur a brynwyd (A4 ac A5) (fesul miliwn o ddalennau) | 2.6 | 2.48 | 1.99 | 2.92 | 2.73 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar waredu gwastraff | 26,930 | 33,266 | 36,455 | 33,008 | 31,649 |

[8] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.

[9] Mae'r holl ddata ynghylch ynni yn cynnwys yr allyriadau trawsyrru a dosbarthu cyfredol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle y bo'n berthnasol.

| Y defnydd o ddŵr | | 2014-15 (llinell sylfaen) | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3) | Y defnydd o ddŵr: | | | | | |
| | Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol) | 6,117 | 5,174 | 5,347 | 4,158 | 5,857 |
| | Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol) | 1,554 | 502 | 853 | 578 | 542 |
| | Tynnu dŵr (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar y gyflenwad a charthffosiaeth | 22,245 | 18,954 | 19,376 | 15,424 | 12,189 |

| Teithio Swyddogol [10,11] | | 2013-14 (llinell sylfaen) | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd) | Teithio ar fusnes | 884,176 | 875,999 | 820,851 | 724,400 | 626,857 |
| | Cerbydau y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 31,949 | 27,638 | 15,803 | 16,512 | 16,705 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 349,775 | 358,666 | 328,532 | 281,196 | 256,397 |

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Defnyddiwyd ffactorau trosi DEFRA ar gyfer 2018 i gyfrifo'r ffigurau carbon deuocsid a'i gyfatebol ($CO_2e$). Mae $CO_2e$ yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

Caiff allyriadau eu hadrodd yn seiliedig ar y dull rheoli ariannol a ddefnyddir ar gyfer yr ystâd graidd weinyddol yn unig. Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Cynulliad, sydd ar gael ar ein gwefan.

[10] Mae'r holl ddata ynghylch teithio bellach yn cynnwys ffigurau'r holl allyriadau o'r ffynnon i'r tanc cyfredol ac ôl-weithredol ar gyfer defnyddio tanwydd.

[11] Ac eithrio teithio gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ym mis Chwefror a mis Mawrth 2018 oherwydd oedi o ran gofynion adrodd. Mae blynyddoedd blaenorol wedi'u haddasu wrth i'r hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

## Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, yn ôl ei nodau strategol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o brif ddangosyddion, a ddyrannwyd o dan y nodau strategol, sydd wedyn yn cael eu rhannu'n ddangosyddion manylach.

Defnyddir system 'goleuadau traffig' i ddangos perfformiad yn erbyn y targedau o ran dangosyddion. Mae lefelau goddefgarwch yn erbyn y targed wedi cael eu pennu ar gyfer pob dangosydd, felly caiff perfformiad ar gyfer pob dangosydd ei bennu yn dibynnu ar ble mae'r canlyniadau yn dod o fewn y lefelau goddefgarwch.

| | |
|---|---|
| 🔴 | Coch: Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas. |
| 🟠 | Oren: Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed. |
| 🟢 | Gwyrdd: Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu'n mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli. |

Eleni, mae nifer fach o ddangosyddion yn dangos 'coch', ond mae ein dadansoddiad yn cadarnhau bod y rhain o ganlyniad i newidiadau sylweddol o ran cyfrifo, yn hytrach nag unrhyw faterion arwyddocaol sy'n effeithio ar amcanion busnes. Er enghraifft, bu cwymp sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yn 2018-19 ond mae hyn oherwydd i ni gynnal yr arddangosfa Weeping Window – a oedd yn atyniad mawr – yn 2017-18.

## Dull gweithredu newydd ar gyfer 2019-20

Rydym wedi cwblhau adolygiad o'r dangosyddion perfformiad allweddol cyfredol (a adolygwyd ddiwethaf yn 2014) a chytunwyd ar ddull gweithredu newydd at y dyfodol.

Bydd gwaith adrodd yn digwydd ar set newydd o fesurau strategol o berfformiad corfforaethol cyffredinol, sydd wedi'u cysylltu'n agos â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn. Dangosyddion sefydlog fydd y rhain, a hynny am weddill y Pumed Cynulliad o leiaf.

Yn ogystal, bydd gwaith adrodd yn digwydd ar set o fesurau sy'n 'ymestyn' y sefydliad i ddatblygu perfformiad mewn meysydd y gellid eu gwella. Caiff y set hon o ddangosyddion ei hadolygu'n flynyddol.

Bydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 yn adrodd ar y dull gweithredu newydd hwn.

## Cyflawniad ar sail nodau strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA):

| Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | Ebrill 2018 – Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd<br>Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb cyhoeddi papurau pwyllgor, briffiau ymchwil a chyhoeddi Cofnod y Trafodion. | ● Gwyrdd | ● Gwyrdd |
| DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol<br>Yn ôl y disgwyl ar y pwynt hwn yn y Pumed Cynulliad, mae nifer y bobl sy'n manteisio ar weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus wedi gostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae nifer y dysgwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu. | ● Gwyrdd | ● Gwyrdd |

| **Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad** | **Ebrill 2017 – Mawrth 2018** | **Ebrill 2018 – Mawrth 2019** |
|---|---|---|
| DPA 3: Meithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol<br>Mae'r newid o wyrdd i oren yn adlewyrchu'r amrywiad yn nifer yr ymwelwyr yn dibynnu ar natur y gweithgareddau sy'n digwydd yn flynyddol. Yn 2017-18, fe wnaeth yr arddangosfa Weeping Window arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr dros gyfnod estynedig, ac fe wnaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2018 arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr dros gyfnod llawer byrrach.<br>Rydym bellach yn casglu gwybodaeth i asesu a yw ymwelwyr â'n hystâd yn gadael yn deall ein gwaith yn well. | Gwyrdd | Oren |
| DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad<br>Er bod twf ar brif gyfrif corfforaethol y Cynulliad wedi sefydlogi, rydym wedi gweld twf sylweddol yn nifer y dilynwyr ar ein sianelau eraill, gan gynnwys cynnydd yn y nifer sy'n dilyn cyfrif Twitter y Senedd Ieuenctid. | Gwyrdd | Oren |

| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | **Ebrill 2017 – Mawrth 2018** | **Ebrill 2018 – Mawrth 2019** |
|---|---|---|
| DPA 5: Gwariant yn erbyn y targed<br>Nodir arbediad o oddeutu £134,000 ar gontract. Mae prydlondeb y taliadau i gyflenwyr ac Aelodau'r Cynulliad yn parhau i fod ymhell o fewn y targed. Mae canran y gwariant caffael gyda chyflenwyr o Gymru yn ddangosydd newydd, gyda tharged ymestynnol o 43%. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| DPA 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu<br>Mae cyfraddau absenoldeb ar gyfer y cyfartaledd treigl o 12 mis (y mesur sy'n cyfrif yn y modd mwyaf effeithlon am natur dymhorol naturiol drwy'r flwyddyn) wedi gostwng ychydig. Mae gweithgarwch i helpu i wella llesiant meddyliol yn parhau. Gwelwyd cwymp yng nghyfraddau ymateb yr arolwg staff blynyddol, a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019. Bydd yr arolwg yn mynd yn ôl i gael ei gynnal ym mis Medi yn y dyfodol. Mae'r sgôr ymgysylltu yn aros yr un fath, sef 74%. | Oren | Oren |
| DPA 7: Gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu fel y cynlluniwyd<br>Mae rhai digwyddiadau, fel problemau Outlook a chyflwyno offer newydd, wedi arwain at ostyngiad bach o ran cyflawni yn erbyn targedau y cytundeb lefel gwasanaeth. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | **Ebrill 2017 – Mawrth 2018** | **Ebrill 2018 – Mawrth 2019** |
|---|---|---|
| DPA 8: Ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl yr angen<br>Oherwydd materion capasiti staff, fe aeth wyth cais rhyddid gwybodaeth heibio i'r terfyn amser statudol yn y cyfnod hwn. | Oren | Oren |
| DPA 9: Targedau amgylcheddol yn cael eu cyrraedd fel y cynlluniwyd<br>Mae parhau â'r gwaith i roi offer ac arferion effeithlon o ran ynni ar waith, ynghyd â gostyngiad yn y ffactor trosi carbon ar gyfer trydan grid y DU, wedi helpu i sicrhau gostyngiad sylweddol yn yr ôl-troed ynni cyfunol eto eleni ac rydym wedi cyflawni ein targed hirdymor ar gyfer 2021. | Gwyrdd | Gwyrdd |

## Nod strategol: Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

| DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd[12] | Targed | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | Ebrill 2018 – Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| **Canran y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor** | 100% | 95.4% | 96.3% | Gwyrdd |
| **Canran Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser** | 100% | 100% | 100% | Gwyrdd |
| **Canran Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith** | 100% | 98.5% | 100% | Gwyrdd |
| **Canran o drafodion y Cynulliad (cyfarfodydd pwyllgor/Cyfarfod Llawn) yr effeithiwyd arnynt oherwydd methiant i ddarparu gwasanaethau'r Comisiwn** | 0% | 0% (0 allan o 415) | 0% (0 allan o 457) | Gwyrdd |
| **Canran yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno** | 100% | 99.5% | 99.8% | Gwyrdd |

| DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol | Targed | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | Ebrill 2018 – Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a lenwyd gan Aelodau'r Cynulliad**[13] | 180 | 143 | 122 | Ambr |
| **Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus a lenwyd gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad**[14] | 350 | 586 | 534 | Gwyrdd |
| **Y graddau y mae Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn disgwyl i'r hyfforddiant a ddarparwyd gael effaith gadarnhaol ar eu gwaith**[15] | 70% effaith gadarnhaol | 98.2% | 91.4% | Gwyrdd |
| **Nifer y dysgwyr Cymraeg (staff y Comisiwn, Aelodau Cynulliad a Staff** | - | 131 | 146 | - |

[12] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[13] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[14] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[15] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| **Cymorth Aelodau'r Cynulliad) sy'n cael hyfforddiant drwy'r Tîm Sgiliau Iaith** [16] | | | |
| **Nifer y dysgwyr Cymraeg sy'n symud ymlaen i lefel uwch** | - | 34 | 24 - |

## Nod strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

| DPA 3: Meithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymwelwyr â'r Senedd[17]<br>Fel y nodwyd uchod, fe wnaeth y Senedd gynnal yr arddangosfa Weeping Window yn ystod 2017-18, a arweiniodd at gynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr. Felly mae'r dangosydd coch yn adlewyrchu gostyngiad yn y niferoedd.<br>Yn y dyfodol, byddwn yn casglu gwybodaeth i asesu a yw ymwelwyr â'n hystâd yn gadael yn deall diben a gwaith y Cynulliad yn well. | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 108,778 | 90,759 |
| Nifer yr ymwelwyr â'r Pierhead[18] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 99,523 | 132,331 |
| Nifer yr ymwelwyr ar deithiau [19]<br>Mae ymwelwyr sy'n mynd ar deithiau o amgylch y Senedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r ffigurau hyn yn llai na ffigurau'r llynedd. Roedd llai o deithiau grŵp ar gael yn ystod y flwyddyn oherwydd trosiant staff sylweddol. Pan gafodd y lefelau staffio eu hadfer, roedd y nifer a oedd yn mynd ar deithiau yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 23,238 | 15,022 |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o fynd ar daith o amgylch yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [20] | 80% | 100% | 100% |

[16] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[17] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[18] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[19] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[20] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| DPA 3: Meithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd [21] | Cynnydd ar y cyfnod blaenorol | 308 | 293 (gwyrdd) |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o drefnu digwyddiad ar yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [22] | 80% | 98.0% | 100% (gwyrdd) |
| Nifer y sesiynau codi ymwybyddiaeth gyffredinol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gyda phobl ifanc [23] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 643 | 684 (gwyrdd) |

| DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| **Traffig ar y we:** [24]<br>**Ymwelwyr**<br>**Ymweliadau**<br>**Achosion o agor tudalen benodol** | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 50,162<br>91,046<br>265,990 | 48,172 (ambr)<br>84,476 (ambr)<br>249,910 (ambr) |
| **Facebook: Cyrhaeddiad ar gyfartaledd** [25]<br><br>Cyflwynodd Facebook (FB) newidiadau a oedd yn blaenoriaethu cynnwys gwerth chweil a ffrindiau agos o flaen cyfrifon brand a busnes, sy'n effeithio ar yr hyn y mae defnyddwyr yn ei weld. O ganlyniad, caiff ffrydiau'r Cynulliad eu cynnwys yn y categori cyhoeddwr a sefydliad gwleidyddol yn hytrach na chategorïau unigol. Rydym yn gwneud newidiadau i'n dangosyddion perfformiad allweddol i'w gwneud yn annibynnol ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys mesur cyfanswm y cyrhaeddiad bob mis o fis Ebrill 2019 yn hytrach na'r cyrhaeddiad dyddiol ar gyfartaledd fel sy'n cael ei adrodd. | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 13,039 | 1,428 (coch) |

[21] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[22] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[23] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[24] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[25] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad | Targed | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | Ebrill 2018 – Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| **Facebook: Hoffi** [26] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 10,345 | 12,465 |
| **Twitter:**<br>**Argraffiadau (nifer y bobl a welodd y cynnwys)** [27]<br>**Dilynwyr (y prif gyfrif corfforaethol)** [28]<br>**Dilynwyr (cyfrifon eraill)** [29] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 509,936[30]<br>48,723<br>30,225 | 580,095<br>52,817<br>44,944 |
| **YouTube:** [31] **Gwylio** | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 29,072 | 33,777 |
| **YouTube:** [32] **Munudau a wyliwyd**<br>Rydym yn gweld newid o YouTube i Senedd.tv (gweler isod), yn dilyn gwelliannau i'r gwasanaeth hwn. | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 182,318 | 152,786 |
| **Defnydd o Senedd.tv:** [33]<br>**Barn**<br>**Defnyddwyr** | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 344,470<br>52,247 | 418,140<br>63,508 |
| **Blog y Gwasanaeth Ymchwil**[34]<br>**Faint o bobl a oedd wedi edrych arno (Cymraeg a Saesneg)** | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 185,256 | 168,093 |

[26] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.
[27] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.
[28] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.
[29] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.
[30] Roedd y ffigur hwn yn anghywir yn adroddiad 2017-18
[31] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.
[32] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.
[33] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.
[34] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

## Nod strategol: Defnyddio adnoddau'n ddoeth

| DPA 5: Gwariant yn erbyn y targed | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| **Rhagolwg o ganran y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn** [35] | <0.5% | 0.8% | 0.5% |
| **Cyrraedd y nod o sicrhau gwerth am arian** [36] | £100,000 | £138,116 | £133,976 |
| **Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu cyflenwyr ar gyfartaledd** [37] | <10 diwrnod | 4.2 | 3.9 |
| **Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu Aelodau'r Cynulliad ar gyfartaledd** [38] | <5 diwrnod | 1.9 | 2.9 |
| **Canran o wariant caffael gyda chyflenwyr o Gymru** | 43% | - | 38.0% |

| DPA 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| **Absenoldeb salwch - cyfartaledd canran treigl dros 12 mis** [39] | <3.7% | 3.8% | 3.7% |
| **Absenoldeb salwch - canran y cyfartaledd misol** [40] | <3% | 3.2% | 4.0% |
| **Cwblhau adolygiadau perfformiad staff (ddwywaith y flwyddyn - Ebrill a Hydref)** | 100% | 89.5% | 89.0% |
| **Cyfradd ymateb cyflogeion i'r arolwg staff blynyddol** [41] | 65% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd. | 82.0% | 62.0% |
| **Lefel ymgysylltiad cyflogeion yn erbyn y 5 cwestiwn craidd yn yr arolwg staff blynyddol** | 58% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd. | 74.0% | 74.0% |

[35] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[36] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[37] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[38] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[39] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[40] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[41] Cynhaliwyd yr arolwg staff blynyddol rhwng 14 Rhagfyr 2018 a 25 Ionawr 2019.

Trosolwg

Dadansoddiad o berfformiad

Atebolrwydd

Datganiadau ariannol

| DPA 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y staff:** [42] | | | | |
| **Nifer y staff** | - | 468 | 478 | - |
| **Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn** | - | 444.6 | 454.1 | - |

| DPA 7: Gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu fel y cynlluniwyd[43] | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| **Targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos** | 90% | 89.2% | 88.9% |
| **Sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9)** | 8 | 8.7 | 8.5 |

| DPA 8: Ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl yr angen[44] | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd** | - | 78 | 68 | - |
| **Canran y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol** | 100% | 94.9% | 88.2% | |

| DPA 9: Targedau amgylcheddol yn cael eu cyrraedd fel y cynlluniwyd[45] | Targed | Ebrill 2017 - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd)** | Gostyngiad o 30% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn 2021 | 27.0% | 42.0% |
| **Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi** | 100% erbyn 2021 | 100% | 100% |

[42] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.

[43] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

[44] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

[45] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Mawrth.



Trosolwg

Dadansoddiad o berfformiad

Atebolrwydd

Datganiadau ariannol

## Arolwg boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth

Gofynnir i'r Aelodau Cynulliad a staff cymorth gwblhau arolwg boddhad blynyddol er mwyn helpu i fesur pa mor dda y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan staff y Comisiwn wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cwestiynau'n defnyddio graddfa 10 pwynt, lle mae 1 = gwael a 10 = ardderchog. Caiff y data eu dangos fel sgôr cyfartalog a ddarperir gan Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth. Cyflwynir crynodeb o'r canlyniadau yma.

| Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | Targed | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad** | 8 | 8.4 | 8.9 |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir i'r Cyfarfod Llawn** | 8 | 8.4 | 8.6 |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir i ymgymryd â'ch gwaith yn eich dewis iaith** | 8 | 8.4 | 8.9 |
| **Y cymorth gyffredinol a ddarperir gan y Gwasanaeth Ymchwil** | 8 | - | 9.1 |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan Cymorth Busnes i'r Aelodau** | 8 | 8.9 | 8.7 |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir drwy'r swyddogaeth Datblygiad Proffesiynol** | 8 | 8.2 | 8.5 |

| Nod strategol – Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad | Targed | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|
| **Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth ymgysylltu â phobl Cymru ym musnes y pwyllgorau** | 8 | - | 7.6 |
| **Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth hyrwyddo gwaith y Cynulliad yn y cyfryngau ac ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol** | 8 | - | 7.4 |
| **Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc** | 8 | - | 7.9 |

| Nod strategol - Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Targed | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan yr adran TGCh ar ystâd y Cynulliad[46] | 8 | 8.3 | 8.6 |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn y swyddfeydd etholaethol neu'r swyddfeydd rhanbarthol | 8 | 8.3 | 8.4 |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer Tŷ Hywel, y Pierhead a'r Senedd | 8 | 8.1 | 8.6 |
| Yr hyder cyffredinol yn y mesurau diogelwch amddiffynnol ar ystâd y Cynulliad | 8 | - | 9.0 |
| Y cyngor a'r cyfarwyddyd diogelwch cyffredinol a ddarperir i'ch swyddfa etholaethol neu ranbarthol | 8 | - | 8.1 |
| Lefel gyffredinol y cymorth ar gyfer trefnu digwyddiad a noddir gan AC ar ystâd y Cynulliad | 8 | - | 8.5 |

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 15 Gorffennaf 2019

[46] Yn 2018, roedd dau gwestiwn gwahanol ynghylch y cymorth cyffredinol a ddarperir gan yr adran TGCh yn Nhŷ Hywel a'r Senedd. Defnyddiwyd sgôr cyfartalog y ddau gwestiwn hyn.



# ATEBOLRWYDD

# Llywodraethu corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio berthnasol.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr wedi'i chynnwys ar dudalennau 14 – 15.

### Y cynghorwyr annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau annibynnol y pwyllgorau wedi'i chynnwys ar dudalennau 16–19.

### Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i chynnwys ar dudalennau 20–21.

### Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

### Trafferthion yn ymwneud â data personol

Roedd dau achos o drafferthion yn ymwneud â data personol a cholli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Roedd pum achos o dorri data personol wedi'u hadrodd yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli'n fewnol. Gan fod y tebygolrwydd o niwed neu ofid i destun y data yn yr achosion hyn yn isel, barnwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalennau 110 i 125).

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w weld ar dudalen 131. Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £57,958 (2017-18, £57,958). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2018-19 (2017-18, dim).

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalennau 126 i 141 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Cynulliad a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad: **www.cynulliad.cymru** and **www.assembly.wales**.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 15 Gorffennaf 2019

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn; yr alldro adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 15 Gorffennaf 2019

# Datganiad Llywodraethu

## Mae'r Datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sut y caiff ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei faterion, hwyluso'r dull o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y strwythurau, systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Comisiwn a'r gweithgarwch sy'n ei wneud yn atebol i'r Cynulliad a phobl Cymru ac sy'n ei ymgysylltu â hwy.  Mae'n cynnwys fframweithiau ar gyfer: cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; caffael; a rheolaeth ariannol. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Mae gennym bolisïau clir hefyd yn ymwneud â thwyll, llygredigaeth, llwgrwobrwyaeth, a chwythu'r chwiban Mae'r fframwaith llywodraethu yn galluogi'r Comisiwn i gynllunio ar gyfer, a monitro, sut y mae wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion strategol ac ystyried a yw hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

## Y strwythur llywodraethu

### Comisiwn y Cynulliad

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Comisiynydd.  Mae rhagor o wybodaeth am y Comisiwn wedi'i chynnwys yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw'r Prif Weithredwr a Chlerc ("y Prif Weithredwr"), sy'n atebol i'r Comisiynwyr am gyflawni ei nodau strategol a

blaenoriaeth, ac mae'n atebol yn bersonol i'r Cynulliad am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yn y Comisiwn, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Cynulliad.

## Pwyllgorau Comisiwn y Cynulliad

Fel rhan o'r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu Mae manylion am eu haelodaeth ar gael yn adran Trosolwg o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae'r rhain yn gyrff cynghori annibynnol heb unrhyw bwerau gweithredol ac sy'n llunio a chyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion Comisiwn y Cynulliad a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol gan gynnwys gweithredu argymhellion; Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg; prosiectau mawr, a threfniadau llywodraethu a rheoli mewnol.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn gwneud argymhellion ar faterion ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a swyddi uwch eraill. Mae hyn yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn bodloni'r safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn, ehangwyd cylch gwaith y grŵp i gynnwys materion sy'n gysylltiedig â dull strategol y Comisiwn i ymgysylltu a datblygu'r gweithlu, ac fe gafodd ei ailenwi yn Bwyllgor Cynghori Comisiwn y Cynulliad ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC).

## Penodiadau Cyhoeddus

Y Cynulliad sy'n gyfrifol am y penodiadau cyhoeddus canlynol: Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Safonau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer y penodiadau cyhoeddus hyn. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad, er ei bod yn amlwg yn y ddeddfwriaeth bod y Cynulliad yn gyfrifol am bob penodiad a'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â hwy, mewn rhai achosion roedd diffyg dirprwyo clir o'r Cynulliad i'r Comisiwn, lle dewisodd y Cynulliad wneud y ddirprwyaeth hon. Mae gwreiddiau hyn yn hanesyddol, gan fynd yn ôl i'r amser cyn gweithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rydym wedi cael cyngor cyfreithiol allanol i gadarnhau nad oes unrhyw beth afreolaidd wedi deillio o'r diffyg technegol hwn, ac mae'r cyngor hwn wedi cadarnhau bod y penodiadau a wnaed a'r gofyniad i dalu'r rhai a benodwyd yn briodol ac yn gyfreithiol. O ganlyniad, byddwn yn achub ar y cyfle pan fydd yn codi i ychwanegu'r eglurder hwn i'r ddeddfwriaeth, fel bod dirprwyaeth, lle mae'r Cynulliad yn cytuno i wneud hynny, yn cael ei roi'n benodol fel rhan o'r Cynulliad yn cytuno i'r penodiad newydd. Rydym eisoes wedi gwneud hyn gyda Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i adolygu a diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer monitro'r gwahanol gysylltiadau sy'n pennu'r cyflog ar gyfer penodiadau cyhoeddus o'r fath, er mwyn sicrhau, pan fydd y graddfeydd cysylltiedig yn newid, bod cyflog y sawl a benodir yn cael ei adolygu'n briodol.

Telir cyflogau'r penodiadau cyhoeddus hyn o daliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Prif Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Gyfunol Cymru yw Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a'i archwilydd yw Archwilydd Cyffredinol Cymru. Wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau y cytunwyd ar ffordd ymlaen. Mae Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn yn rhoi diweddariadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar y materion hyn.

### Arall

Y tu allan i fframwaith llywodraethu'r Comisiwn, mae yna hefyd Fwrdd Taliadau annibynnol sydd â swyddogaethau statudol i bennu'r cyflogau a'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Bwrdd hwn yn llunio ac yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu ac yn cydymffurfio â chyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol[47], sy'n gyson â Chod Corfforaethol y DU a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae adran Sicrwydd y datganiad hwn (tudalennau 103) yn disgrifio sut y cafodd tystiolaeth o'r cydymffurfio ei

[47] http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/comm-corporate-framework/Pages/governance_principles_supporting_provisions.aspx

chasglu drwy ddatganiadau sicrwydd a thrwy ddefnyddio'r Fframwaith Sicrwydd.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau ac amcanion strategol y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a Chlerc. Mae'r ddirprwyaeth ffurfiol[48] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr a Chlerc ymgynghori â'r Comisiwn arnynt. Mae system lywodraethu o awdurdodau dirprwyedig wedi'i sefydlu hefyd at ddibenion rheoli adnoddau, sy'n cynnwys cyllid, staffio a chyfrifoldebau eraill sy'n ymwneud ag adnoddau, fel caffael.  Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu rhwng tair Cyfarwyddiaeth: Busnes y Cynulliad; Adnoddau'r Cynulliad; Ymgysylltu, gan adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn aelod o Gyfarwyddiaeth Adnoddau'r Cynulliad. Mae'r Cyfarwyddiaethau wedi'u rhannu ymhellach i wasanaethau, dan arweiniad y Penaethiaid Gwasanaeth.

### Rheolwyr y Comisiwn

Yn dilyn adolygiad o strwythur llywodraethu'r Comisiwn ac mewn ymgynghoriad ag uwch reolwyr, cyflwynodd y Prif Weithredwr strwythur llywodraethu newydd o fis Ebrill 2018, sydd wedi helpu i egluro cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Gweithredol a Thîm Arwain, sydd wedi disodli'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau a'r Bwrdd Rheoli. Gellir gweld rhagor o fanylion am y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arwain ar dudalen 22 yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

### Strwythur y Gyfarwyddiaeth

Ym mis Gorffennaf 2018, gadawodd Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad Gomisiwn y Cynulliad. Rhoddwyd trefniadau rheoli dros dro ar waith ar gyfer Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad, hyd nes penodwyd Cyfarwyddwr newydd ym mis Ionawr 2019. Y Prif Weithredwr oedd rheolwr llinell uniongyrchol Penaethiaid Gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth a gymerodd elfennau arwain arwyddocaol rôl y Cyfarwyddwr yn ystod y cyfnod interim hwn. Mae cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â goruchwylio

[48] http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/comm-corporate-framework/Pages/delegation_of_assembly_commission_functions.aspx

materion llywodraethu wedi'u harwain gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol sydd wedi cynrychioli'r Gyfarwyddiaeth ar y Bwrdd Gweithredol.

Yn sgil ymadawiad Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad gwelwyd cyfle i adolygu strwythur uwch staff y Comisiwn er mwyn ystyried sut y gellir datblygu ein model i adlewyrchu gofynion cyfnewidiol y Cynulliad ac ychwanegu cadernid wrth i newidiadau pellach ddigwydd.

Y penderfyniad a wnaed oedd ôl-lenwi rôl Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a sicrhau cydbwysedd y rolau uwch, drwy adlinio rheolaeth linell o amgylch swyddogaethau eang y Comisiwn ac amcanion strategol cefnogaeth, ymgysylltiad ac adnoddau seneddol. Mae'r strwythur newydd bellach yn cynnwys Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad newydd, Cyfarwyddwr Ymgysylltu (teitl newydd i Gyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn), a Chyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad (deiliad y swydd wedi'i benodi).

## Cynllunio a mesur perfformiad

Mae strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad, 2016-21[49], y cytunwyd arni ym mis Mehefin 2016, wedi darparu cyfeiriad a chynllunio gwybodus ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth. Adolygodd y Comisiwn y strategaeth hon yn ystod 2018-19 i ystyried ffactorau a dylanwadau allanol sydd wedi llywio gwasanaethau'r Comisiwn, gan gynnwys newid cyfansoddiadol. Mae'r adolygiad hwn, ochr yn ochr â'r adolygiad capasiti, wedi arwain at set ddiwygiedig o flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn fel yr amlinellwyd yn y ddogfen Y Cynulliad ar Dudalen.[50]

Mae'r Tîm Arwain yn cynnal adolygiadau rheolaidd ac yn craffu ar gynlluniau gwasanaeth a chynlluniau capasiti sy'n helpu i sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer galwadau cyfredol ac yn y dyfodol ar draws y Comisiwn. Mae cynllunio adnoddau o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau a gwasanaethau hefyd yn cael ei wneud yn barhaus sy'n galluogi lleoli staff yn gyflym mewn ymateb i flaenoriaethau a phwysau sy'n dod i'r amlwg.

Mae Adroddiad Perfformiad Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n dangos perfformiad y Comisiwn ar

[49] **https://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/Commission%20strategy-Welsh%20branded%20%28final%29.pdf**

[50] **http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/About%20the%20Assembly%20section%20documents/Assembly-on-a-Page-W.pdf**

draws gwasanaethau. Mae adolygiad o fesurau perfformiad ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad wedi digwydd a bydd mesurau mwy perthnasol, heriol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu cyflwyno o 1 Ebrill 2019.

## Cynnydd a pherfformiad

Yn Natganiad Llywodraethu y llynedd, nodwyd nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu; amlinellir y cynnydd isod:

### Gweithredu'r newidiadau a argymhellir yn yr Adolygiad o Gapasiti

Y llynedd, adroddwyd ar gam un yr Adolygiad Capasiti. Cafodd canlyniadau'r cam cyntaf eu casglu ar gyfer yr ail gam, a sefydlwyd Grŵp Llywio i ddatblygu cynllun gweithredu sefydliadol, ac mae llawer ohono bellach wedi'i weithredu yn ystod 2018-19. Mae manylion llawn y cynnydd a wnaed yn y maes hwn i'w gweld ar dudalennau 60 a 61 yr Adroddiad Blynyddol.

### Bod yn ymwybodol o waith newid cyfansoddiadol a diwygio'r Cynulliad

Rydym wedi parhau i edrych tuag at y dyfodol ac ymgysylltu â'r Llywydd a Chomisiynwyr y Cynulliad i adolygu'r dirwedd wleidyddol a chyfansoddiadol mewn perthynas â diwygiadau yn y dyfodol i'r setliad datganoli yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi gweithio'n gadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru o dan delerau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r newidiadau i etholfraint y Cynulliad yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ("y Bil"). Mae'n nodi'r trefniadau llywodraethu y mae Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gydweithio a rhannu adnoddau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynghori a gweithio i'r Llywydd i helpu i ddatblygu'r Bil i sicrhau fframwaith cofrestru etholiadol cydlynol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a Llywodraeth Leol.

Rydym yn ymwybodol bod angen cyflawni ar gyflymder a sicrhau bod gan y gwaith y lefel briodol o gefnogaeth. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd staff o bob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r gwaith pwysig hwn a chymorth ychwanegol gan staff a fenthycwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Gwnaeth ymdrechion cydunol staff a'r berthynas waith agos â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn arwain at gyflwyno Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru) gan y Llywydd ym mis Chwefror 2019.

## Rhoi digon o adnoddau i Gomisiwn y Cynulliad i fynd i'r afael â goblygiadau Brexit

Hyd yn hyn, mae prif effaith Brexit ar y Cynulliad Cenedlaethol wedi bod ar ei waith fel deddfwrfa. Mae nifer a chwmpas gweithgareddau'r Cynulliad sy'n gysylltiedig â Brexit wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Medi 2018. Mae nifer o bwyllgorau'r Cynulliad wedi cynnal ymchwiliadau i'r paratoadau ar gyfer Brexit neu effaith Brexit ar ystod o sectorau a meysydd datganoledig. Mae deddfwriaeth ynghylch Brexit i gywiro'r llyfr statud cyn ymadael â'r UE yn cael ei thrafod gan y Cynulliad.

Wrth ymdrin â Brexit a chynllunio ar ei gyfer, ailddyrannwyd adnoddau drwy ymarfer 'mynegiant o ddiddordeb' i ryddhau rhywfaint o adnoddau dros dro tymor byr i gefnogi gwaith yr Aelodau. Rydym wedi cynllunio cymaint â phosibl ar gyfer y digwyddiadau a'r materion y gwyddom sy'n debygol o ddigwydd. Mae darparu adnoddau ar gyfer Brexit yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod Aelodau'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ôl yr hyn a ddywedant (e.e. drwy Fforwm y Cadeirydd).

O ran sicrwydd a llywodraethu, y Pennaeth Ymchwil yw arweinydd Brexit, ac erbyn hyn mae gennym gydlynydd Brexit rhan amser i helpu i gefnogi parodrwydd Brexit ar draws y Comisiwn. Mae'r gwaith yn cynnwys ymarferion cynllunio senarios, cynllunio adnoddau a blaengynllunio, deialog barhaus rhwng y Llywydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau mewn perthynas â llwythi gwaith a chysylltiad rheolaidd â Seneddau eraill y DU.

Er bod y pwyslais wedi bod ar gefnogi gwaith deddfwriaethol a gweithdrefnol y Cynulliad, gwnaed asesiadau rheolaidd o effaith Brexit ar wasanaethau corfforaethol y Comisiwn hefyd, gan gynnwys cysylltu â Seneddau eraill y DU, gan ystyried unrhyw oblygiadau tymor byr i'n gweithwyr a dadansoddi yr effeithiau posibl ar gaffael a'n cadwyni cyflenwi.

## Cyflawni Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Cynulliad mewn ffordd sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Datblygu argymhellion gan y Tasglu Digidol a Gwybodaeth, hyrwyddo tryloywder, ymgysylltu ac effeithlonrwydd, a sicrhau ei bod yn haws cael mynediad at ddata busnes y Cynulliad;

Cytunwyd ar flaenoriaethau ymgysylltu gan y Comisiwn yn hydref 2018 gan ein galluogi i gynllunio adnoddau ar gyfer cyflawni effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o argymhellion y Tasglu Digidol a Gwybodaeth bellach wedi'u cyflawni.

Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i ddiwygio ein swyddogaethau cyfathrebu ac ymgysylltu; gan gynnwys adolygiad allanol.

## Adolygu ac asesu effaith trefniadau llywodraethu newydd a ddaw yn sgil strwythur y bwrdd newydd

Mae'r trefniadau llywodraethu, fel yr amlinellwyd ar dudalen 91wedi bod ar waith ers blwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae rôl y Bwrdd Gweithredol hefyd wedi dechrau esblygu, gan gymryd perchnogaeth dros newid sefydliadol drwy weithredu hefyd fel Bwrdd Newid.

Fel rhan o'r blaenraglenni gwaith y cytunwyd arnynt, mae disgwyl i'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arwain, ac yna bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

## Gwerthuso a phenderfynu ar drefniadau uwch-aelodau o staff yn y dyfodol

Yn sgil Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad yn gadael, cafwyd adolygiad o strwythur staffio uwch y Comisiwn ac ad-drefnu'r Cyfarwyddiaethau, fel y disgrifiwyd ar dudalen 94.

## Parhau i fonitro ac adolygu gweithrediad a chydymffurfiaeth â GDPR ar draws y sefydliad

Cafodd y broses o newid i GDPR ei gyflwyno'n llwyddiannus, dan arweiniad y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, gyda chefnogaeth effeithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r gweithgor GDPR. Rydym yn parhau i fonitro risg gorfforaethol GDPR yn ofalus ac rydym wedi ymgysylltu ag archwilio mewnol er mwyn rhoi sicrwydd ar ein cynnydd. Wrth symud ymlaen, rydym yn ymwybodol o'r angen i gadw llygad barcud ar gyfraith achosion sy'n datblygu ac arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth i GDPR gael ei wreiddio. Er mwyn ein cynorthwyo yn hyn o beth, rydym wedi datblygu deunydd hyfforddiant GDPR dwyieithog mewnol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r holl staff yn y sefydliad.

**Datblygu a lansio polisïau a gweithdrefnau Urddas a Pharch wedi'u diweddaru ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth a staff y Comisiwn**

Cyflawnwyd hyn yn ystod 2018-19. Adroddwyd ar nifer o argymhellion gan ein Pwyllgor Safonau Ymddygiad ym mis Medi 2018 ac mae'r rhain wedi'u cyflwyno neu eu cynllunio. Bydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn parhau â'i waith mewn cysylltiad â'r Cod Ymddygiad.

## Rheolaeth a pherfformiad ariannol

Mae ethos gwelliant parhaus y Comisiwn wedi'i adlewyrchu ym maes rheolaeth a pherfformiad ariannol. Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau pellach o ran rheolaeth ariannol, adrodd a rhagweld i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Yn gynnar yn y flwyddyn, cynhaliwyd cyfres o ymarferion i flaenoriaethu cynigion buddsoddi. Rhoddodd hyn eglurder i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y flaenraglen a chronfa'r prosiect. Bob chwarter, caiff cyllidebau gwasanaeth a phrosiectau eu profi er mwyn sicrhau bod unrhyw newid yn lefel yr arian sydd ei angen yn cael ei nodi'n brydlon a, lle bo'n briodol, bod arian yn cael ei ailddyrannu.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol ar reolaeth ariannol a'r cynllun dirprwyo yn yr hydref ac roedd canlyniad cadarnhaol. Mae dyfyniad o'r adroddiad hwn yn nodi:

> "Mae'r ymatebion cadarnhaol {i'r arolwg} yn adlewyrchu'r ymdrechion cydunol gan staff Cyllid, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, i ymgysylltu â'r sefydliad ehangach, gwella dealltwriaeth rheolwyr cyllidebau a sicrhau bod cofnod cywir o sefyllfa ariannol Comisiwn y Cynulliad yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cael gwybodaeth reoli amserol a chywir sy'n cynorthwyo proses effeithiol o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau y caiff adnoddau ariannol eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon."

Yn ystod y flwyddyn mae'r Gofrestr Asedau Sefydlog wedi'i hymgorffori yn system gyllid NAV ac felly'n dileu'r angen am lawlyfr cyfrifon ar wahân a chynyddu effeithlonrwydd.

Adlewyrchwyd effeithiolrwydd rheolaeth ariannol yn:

- archwiliad glân o gyfrifon 2017-18: adborth cadarnhaol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- gostyngiad yn y Ffi Archwilio ar gyfer 2017-18 am y drydedd flwyddyn yn olynol, gan adlewyrchu'r gwelliant mewn arferion gwaith a phapurau, ynghyd â dull archwilio newydd sy'n arwain at broses archwilio effeithlon, llyfn;
- canlyniad cadarnhaol o'r archwiliad mewnol; a
- mae ffocws y Comisiwn ar gyflawni Gwerth am Arian yn parhau, er bod graddfa'r meysydd posibl ar gyfer cyflawni arbedion yn lleihau'n raddol: am y seithfed flwyddyn yn olynol rydym wedi rhagori ar ein targed arbedion, a oedd wedi gostwng o £500k i £100k.

Bu'n flwyddyn anodd o ran craffu ac arsylwi, yn benodol yr her a gawsom gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch lefel a defnydd adnoddau'r Comisiwn. Mae'r adran Cyllid ac Adnoddau Dynol wedi arwain ar gynhyrchu a sicrhau cywirdeb gwybodaeth am sefydliadau, cyfrif staff a chyllidebau. Mae'r dull hwn wedi bod o fudd i'r sefydliad cyfan wrth ddatblygu perchnogaeth o'r wybodaeth hon ar draws yr holl wasanaethau, a fydd yn ein gwasanaethu'n dda ar gyfer y dyfodol. Mae'r tîm Cyllid wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer strategaeth a chyflwyniad y gyllideb yn y dyfodol, gan arwain at y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r broses hon am ei thryloywder.

Mae dyfyniad o'r adroddiad craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20 gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2018 yn nodi:

> "Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion gan y Comisiwn a'r Prif Weithredwr i fynd i'r afael â phryderon blaenorol ynglŷn â dyrannu cyllideb y Comisiwn a'i chyflwyno. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, yng ngoleuni'r newidiadau i Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, y byddai'n debygol y byddai'n rhaid i'r Comisiwn fod wedi gwneud newidiadau oherwydd y byddai'r tanwariant wedi lleihau, ond mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf fod y newidiadau'n cyfrannu at dryloywder wrth gyllidebu. Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull gweithredu'r Prif Weithredwr ers ei phenodiad, ac mae'n arbennig o falch o'r dull

agored a welir gan y Prif Weithredwr a'i pharodrwydd i weithio gyda'r Pwyllgor."

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system reoli fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi, blaenoriaethu a rheoli risgiau a allai effeithio ar allu'r Cynulliad i gyflawni ei flaenoriaethau a'i nodau strategol yn effeithiol, ac i gydymffurfio â'i bolisïau a'i weithdrefnau.

Mae Bwrdd Gweithredol y Comisiwn (y Bwrdd) yn cynnal adolygiadau o'i risgiau corfforaethol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd hefyd yn edrych at y dyfodol yn rheolaidd ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn monitro ac yn adrodd yn fanwl ar y risgiau a nodwyd i sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau.

Ar ddechrau'r flwyddyn 2018-19, roedd y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys rhai risgiau sylweddol sydd wedi aros ar y gofrestr oherwydd eu difrifoldeb parhaus, yn enwedig oherwydd eu heffaith bosibl, er gwaethaf ffocws pendant ar gamau lliniaru. Mae'r risgiau hyn yn ymwneud â'r materion a ganlyn:

- urddas a pharch;
- pwysau o ran llety;
- capasiti/gallu corfforaethol i gyflawni blaenoriaethau a nodau strategol y Comisiwn;
- datblygu cynigion ar gyfer Diwygio'r Cynulliad;
- Gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- seiber-ddiogelwch;
- cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ychwanegu risgiau yn ymwneud â'r Senedd Ieuenctid a gweithredu rhaglen Diwygio'r Cynulliad ac wedi ail-ffocysu'r risg o ran urddas a pharch wrth ymdrin â honiadau o aflonyddu i ymddiried yn ein prosesau a'n gweithdrefnau.

Mae seiber-ddiogelwch yn risg gorfforaethol sydd wedi'i adolygu'n rheolaidd, gan gynnwys gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r bygythiad hwn yn parhau i fod yn uchel ac mae'r Comisiwn wedi ymateb drwy barhau i gyflwyno ystod o fesurau amddiffynnol ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n amlwg ar seiber-ddiogelwch yn y dyfodol a bydd yn aros ar y cynllun archwilio mewnol blynyddol, gyda diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rydym wedi dileu risgiau sy'n ymwneud â phwysau ariannol a diogelwch ffisegol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol oherwydd y rheolaethau sydd ar waith sy'n lliniaru'r risgiau gymaint â phosibl, fodd bynnag, bydd y ddwy risg yn parhau i gael eu monitro ar lefel gwasanaeth.

Yn ogystal ag ystyried risgiau corfforaethol unigol yn fanwl a'u heffaith gronnus, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg. Croesawodd y Pwyllgor asesiad ac amlygrwydd parhaus y risgiau a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd a'r system newydd sy'n hwyluso'r gwaith o gasglu, dadansoddi ac adrodd am risg.

## Sicrwydd

### Fframwaith Sicrwydd

Defnyddir Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth ynghylch lefelau sicrwydd at ddibenion llywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaeth, sydd, yn eu tro, wedi llywio datganiadau sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth.  Ychwanegodd un aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Risg y Comisiwn haen arall o sicrwydd drwy graffu ar y broses o gasglu tystiolaeth ar sicrwydd, yn ogystal â'r datganiadau canlyniadol, a'u herio.

Yn ystod 2018-19, gwnaeth ein partneriaid archwilio mewnol ar y cyd, TIAA adolygiad o'n Fframwaith Sicrwydd a daeth i'r casgliad:

> "Mae'r trefniadau sy'n sail i Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn yn gadarn ac yn sicrhau y cymerir ymagwedd o'r gwaelod i fyny i roi sicrwydd bod pob un o elfennau'r map sicrwydd yn ei le ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn ei dro yn darparu trywydd archwilio cynhwysfawr i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol."

Fodd bynnag, bydd y dull o gasglu tystiolaeth, ac adrodd ar sicrwydd, yn parhau i gael ei werthuso a'i ddiweddaru i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben.

### Archwiliad Mewnol

Mae Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn yn cyflawni rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y sefydliad. Mae'n darparu sicrwydd ar draws ystod o feysydd gwasanaeth ac yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae gwaith archwilio mewnol wedi cynnal cydbwysedd archwiliadau systemau, gan gynnwys dirprwyo cyflogau a chyllid, ynghyd ag adolygiadau sicrwydd eraill gan gynnwys archwiliad mewnol yn edrych ar effaith Adolygiad Digwyddiadau Comisiwn y Cynulliad.

Mae'r adroddiadau archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae'r Comisiwn yn dangos arfer da o ran y systemau a'r rheolaethau y mae wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, lle nodir gwendidau neu faterion, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio.

Er enghraifft, ymgorffori'r newidiadau a awgrymir yn yr adroddiad archwilio mewnol wrth gyhoeddi canllawiau ar gyfer y cylch diweddaraf y Datganiadau Sicrwydd a diweddaru'r system ariannol NAV i adlewyrchu newidiadau mewn cyfrifoldebau cyllidebol o ganlyniad i ganfyddiadau'r adroddiad archwilio dirprwyo ariannol.

Mae Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru (fel archwilwyr allanol y Comisiwn) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol ac mae ganddynt brotocol gweithio ar y cyd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried y gwaith archwilio mewnol ar ddirprwyo ariannol a'r gyflogres wrth ymgymryd â'r gwerthusiad cynllunio a rheolaeth fewnol fel rhan o'u gweithdrefnau archwilio allanol. Maent hefyd yn dibynnu ar y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd ar dreuliau'r Aelodau.

Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2018-19 yn dod i'r casgliad y gall y Swyddog Cyfrifyddu fod â sicrwydd cymedrol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi'u dylunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

## Meysydd llywodraethu eraill

Mae'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd wedi cynnal adolygiad o bolisïau'r Comisiwn ar dwyll a chwythu'r chwiban. Ym mis Mawrth 2019, adroddodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg na fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r naill bolisi na'r llall yn ystod 2018-19. Fodd bynnag, drwy fod yn aelod o rwydweithiau ac adolygiadau helaeth o'r deunydd diweddaraf gan sefydliadau fel Trysorlys EM, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru a Protect (Public Concern at Work gynt), mae Archwiliad Mewnol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf ac yn sicrhau bod y polisïau yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r arfer gorau diweddaraf.

Ni nodwyd unrhyw achosion o dwyll yn ystod 2018-19. Lluniodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Adroddiad Blynyddol ar Dwyll ac fe'i cyflwynodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol a Barn. Ni nodwyd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn ystod 2018-19.

Dywedodd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth fod dau achos o drafferthion yn ymwneud â data personol a cholli data personol lle roedd yn

ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Rydym wedi defnyddio fframweithiau allanol a fframweithiau a safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol i arwain ein gwaith llywodraethu a sicrwydd ynghylch seiber-ddiogelwch. Mae'r rhain yn ein helpu i barhau i ddatblygu a chryfhau ein rheolaethau seiber-ddiogelwch a sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch gwybodaeth a data yn cael eu trin yn briodol.

Mae'r Comisiwn yn gwneud gwaith monitro cydymffurfiaeth ffurfiol yn erbyn rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, ac mae adroddiadau arnynt yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, Adroddiad Cydymffurfiaeth Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

Mae'r Tîm Llywodraethu yn cyflwyno modiwl llywodraethu penodol o raglen Datblygu Rheolwyr Comisiwn y Cynulliad y mae nifer o staff ar draws y sefydliad wedi'i ddilyn. Gellir cyflwyno hyfforddiant llywodraethu pwrpasol i dimau penodol hefyd, ac mae hyn wedi cynnwys darparu hyfforddiant llywodraethu ar gyfer uwch staff y Gwasanaeth Lleoliadau ac Ymwelwyr Seneddol (PaVVS) a TGCh.

Cynhelir cyfarfodydd rhwng y Tîm Llywodraethu a Phenaethiaid Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac, ochr yn ochr â'r ymarfer datganiad sicrwydd, maent yn helpu i nodi unrhyw feysydd sydd angen canolbwyntio arnynt neu hyfforddiant pellach. Yna ymdrinnir â hyn drwy sesiynau briffio neu hyfforddiant pellach a gyflwynir gan y Tîm Llywodraethu. Yn dilyn yr ymarfer datganiad sicrwydd cychwynnol ar gyfer 2018-19, er enghraifft, rhoddwyd sesiynau briffio ar rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a rôl archwilio mewnol. Mae sesiynau yn trafod Polisi Chwythu'r Chwiban a gweithdrefnau caffael wedi'u cyflwyno hefyd.

## Sicrwydd Annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol[51] anweithredol y Comisiwn yn rhoi cymorth ac yn herio Comisiwn y Cynulliad a'i waith mewn ffordd adeiladol. Ers i'r Ymgynghorwyr Annibynnol gael eu penodi, cytunwyd ar drefniadau newydd; disgrifir y rhain ar dudalen 19.

[51] **http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=386**

Mae canlyniadau'r gweithgareddau cydnabod allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn gan eu bod yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddo. Mae rhagor o wybodaeth am y Comisiwn wedi'i chynnwys yn adran Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth yr Adroddiad Blynyddol.

### Sicrwydd Annibynnol Allanol

Mae bodolaeth y Bwrdd Taliadau[52], sy'n gorff annibynnol yn unol â statud, ac sydd â chyfrifoldeb am bennu cyflogau, pensiynau a chymorth ariannol i Aelodau a'u staff, yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Comisiwn yn sylweddol. Mae defnydd y Bwrdd Taliadau o'r Penderfyniad yn cael ei archwilio yn rheolaidd ac yn parhau i fod yn effeithiol, gan ddiogelu enw da yr Aelodau a'r Cynulliad.

Ceir sicrwydd tebyg gan y Comisiynydd Safonau annibynnol[53]. Mae bodolaeth y swyddfa, a'r arbenigedd a'r profiad eithriadol a hanes yr hen Gomisiynydd Safonau a'r un newydd, yn darparu lefel uchel o sicrwydd o ran ymddygiad yr Aelodau a'r drefn safonau. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwella'r gefnogaeth annibynnol sydd ar gael i swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Canolbwynt yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a herio a gwblhawyd gan y Bwrdd Gweithredol ar 11 Chwefror 2019.

Ystyriodd yr adolygiad hwn ddatganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a gynhyrchwyd gan ystyried datganiadau sicrwydd manwl gan bob Pennaeth Gwasanaeth.  Mynychodd aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y cyfarfod i ddarparu her annibynnol.  Roedd yr adolygiad yn cynnwys sicrwydd ar y canlynol:

- y cynnydd o ran y llwyddiannau allweddol;

[52] http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=375
[53] http://comisiynyddsafonaucymru.org/

- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd a wnaed o ran y meysydd gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt, neu eu cryfhau.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2019-20

Mae maint y newid yn y dyfodol sy'n wynebu'r sefydliad yn arwyddocaol o hyd. Mae cynlluniau'r Comisiwn ar gyfer diwygio etholiadol, goblygiadau Brexit ac agweddau eraill ar newid cyfansoddiadol a gweithredu Cynulliad bach gyda llwyth gwaith uchel a chynyddol, yn golygu y bydd Comisiwn y Cynulliad yn wynebu pwysau sylweddol ar adnoddau y flwyddyn nesaf.

Y prif bryder strategol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw ein gallu i barhau i gyflawni nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn tra hefyd yn wynebu nifer o heriau digynsail.

Bydd meysydd ffocws a datblygu penodol ar gyfer 2019-20 yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau ymgysylltiad gwleidyddol ac allanol effeithiol â rhanddeiliaid i gefnogi'r Llywydd a datblygiad rhaglen Diwygio'r Cynulliad, gan gynnwys Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru);
- Cynllunio'n effeithiol i sicrhau trosglwyddiad llyfn a threfnus wrth newid enw y Cynulliad, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2020 pe bai'r Bil yn mynd cael ei basio;
- Dechrau cynllunio sut y gall ein gwasanaethau gefnogi Aelodau yn y Chweched Cynulliad orau;
- Cwblhau ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a gweithgareddau prif ffrwd ar draws y sefydliad i helpu i wreiddio diwylliant o urddas a pharch;
- Adolygu a datblygu gwaith y Senedd Ieuenctid, gan sicrhau arfer da parhaus mewn perthynas â diogelu a chysylltu'r gwaith yn effeithiol â gwaith y Cynulliad; a

- Comisiynu adolygiad o recriwtio corfforaethol – edrych ar gylch bywyd cyfan y broses bresennol gyda'r nod o wella sut y gallwn fod yn fwy hyblyg wrth recriwtio yn y tymor hir. Bydd hyn yn rhedeg ochr yn ochr â (neu cyn) cyflwyno system recriwtio ar-lein newydd.

## Datganiad i gloi

I grynhoi, rwy'n hyderus bod gan y sefydliad safon uchel iawn o lywodraethu. Mae cryfder y sefyllfa hon yn arbennig o bwysig wrth inni wynebu heriau sylweddol. Rwy'n fodlon bod y gwendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw neu yn y broses o gael sylw. Rwyf hefyd yn fodlon bod y systemau a'r prosesau o fewn ein fframwaith llywodraethu wedi cael eu gweithredu a'u datblygu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 15 Gorffennaf 2019



# Taliadau a staff

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi sylwebaeth a gwybodaeth ariannol am ddeiliaid swyddi y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Mae'r Bwrdd Taliadau (y Bwrdd) annibynnol, a sefydlwyd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, yn gyfrifol am bennu Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan y Fonesig Dawn Primarolo ers mis Medi 2015.

Mae'r Cadeirydd yn cael £333 y diwrnod. Mae pedwar aelod arall y Bwrdd (Ronnie Alexander, y Fonesig Jane Roberts, Trevor Reaney a Michael Redhouse) yn cael £267 y diwrnod. Fel Bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun. Mae'r Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, yn pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 yn £66,847 (2017-18, £65,344). Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2018 | O 1 Ebrill 2017 |
|---|---:|---:|
| Y Llywydd | £42,824 | £41,861 |
| Y Dirprwy Lywydd | £21,934 | £21,441 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £13,578 | £13,273 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch)[54] | £13,578 | £13,273 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (is)[55] | £9,045 | £8,842 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £9,045 | £8,842 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

[54] Y pwyllgorau oedd Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu; Economi, Seilwaith a Sgiliau; Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol; Cyllid; Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a Chyfrifon Cyhoeddus.

[55] Y Pwyllgorau eraill oedd Deisebau a Safonau Ymddygiad.

O 1 Ebrill 2018, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £13,578 (£13,273 2017-18) a £1,044 ychwanegol (£1,021 2017-18) am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £37,601 (£36,756 2017-18).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad[56].

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a benodir gan y Cynulliad. Mae'r Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2018–19 wedi'u rhestru ar dudalennau 14 i 15.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ydynt yn cael eu talu o gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

[56] www.cynulliad.cymru.

***Tabl 1: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Budd-daliadau Pensiwn[57 58] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 £'000 | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2017-18 £'000 |
| Elin Jones AC – y Llywydd | 105-110 | 105-110 | 33 | 36 | 140-145 | 140-145 |
| Ann Jones AC – y Dirprwy Lywydd | 85-90 | 85-90 | 35 | 38 | 120-125 | 120-125 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

***Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd – budd-daliadau pensiwn***

| Enw a theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2019 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2018[59] £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elin Jones AC – y Llywydd | 0-2.5 | 40-45 | 717 | 656 | 18 |
| Ann Jones AC – y Dirprwy Lywydd | 0-2.5 | 35-40 | 715 | 673 | 34 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Clerc y Cynulliad (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno i ymgymryd â'i rwymedigaethau statudol. Mae hyn yn sicrhau y gall y Cynulliad a'i bwyllgorau gynnull. Mae

[57] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir budd-daliadau pensiwn i'r £1,000 agosaf).

[58] Gall rhai aelodau orfod talu treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i groniad pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

[59] Mae CETV ar ddechrau'r flwyddyn wedi'i ailddatgan ar gyfer yr aelodau hyn oherwydd newid yn y ffactorau a ddefnyddir yng nghyfrifiad CETV yn dilyn adolygiad o'r holl ffactorau ar ôl cwblhau prisiad actiwaraidd 2017.

hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau'r Pwyllgor

Mae Comisiwn y Cynulliad yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2018–19 ar dudalennau 16 i 19.

## Uwch-aelodau o staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gellir gweld uwch-aelodau o staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Manon Antoniazzi | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn chwech allan o saith cyfarfod y Comisiwn, chwech allan o chwech cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, dau allan o ddau gyfarfod y Pwyllgor Taliadau ac un allan o un cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu |
| Adrian Crompton – hyd at 20 Gorffennaf 2018 | Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad |
| Siwan Davies – o 4 Chwefror 2019 | Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad |

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Dave Tosh | Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad<br>Roedd Dave Tosh yn bresennol mewn pedwar allan o bedwar cyfarfod cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac un o un cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu |
| Craig Stephenson | Cyfarwyddwr Ymgysylltu<br>Roedd Craig Stephenson yn bresennol mewn un allan o un cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu |
| Elisabeth Jones | Prif Gynghorydd Cyfreithiol |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol.

***Tabl 3: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£'000) | | Budd-daliadau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)[60] | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 |
| **Manon Antoniazzi**<br>o 24 Ebrill 2017 | 130-135 | 115-120 | 51 | 46 | 180-185 | 160-165 |
| **Claire Clancy**<br>hyd at 23 Ebrill 2017 | - | 5-10 | - | 1 | - | 10-15 |
| **Siwan Davies**<br>o 4 Chwefror 2019 | 10-15 | - | 6 | - | 15-20 | - |
| **Adrian Crompton**<br>hyd at 20 Gorffennaf 2018 | 35-40 | 120-125 | 8 | 37 | 45-50 | 160-165 |
| **Dave Tosh** | 110-115 | 105-110 | 38 | 37 | 145-150 | 145-150 |
| **Craig Stephenson** | 100-105 | 90-95 | 92 | 47 | 190-195 | 135-140 |
| **Elisabeth Jones** | 80-85 | 75-80 | 16 | 16 | 95-100 | 95-100 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, goramser, lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad na'r cyfarwyddwyr yn cael taliadau bowns na buddion mewn nwyddau.

Gadawodd Elisabeth Jones Gomisiwn y Cynulliad ar 31 Mai 2019 o dan delerau y cytunwyd arnynt a darperir ar gyfer y gost o £115-120,000 yng nghyfrifon 2018-19 ac fe'i talwyd yn 2019-20. Bydd Craig Stephenson yn gadael Comisiwn y Cynulliad ar 13 Medi 2019 o dan delerau y cytunwyd arnynt a darperir ar gyfer y gost o £125-130,000 yng nghyfrifon 2018-19 ac fe'i talwyd yn 2019-20. Roedd y taliadau hyn yn rhan o Gynllun Ymadael Gwirfoddol ehangach y manylir arno yn nodyn 2D o'r cyfrifon hyn.

Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2018-19 ar gyfer Adrian Crompton oedd £124,953 ac ar gyfer Siwan Davies oedd £89,817.  Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2017-18 ar gyfer Manon Antoniazzi oedd £125,170 ac ar gyfer Claire Clancy oedd £153,785.

## Cyflogau staff y Comisiwn

Datgelir y berthynas rhwng canolbwynt taliadau bandiau'r cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 a thaliad canolrifol staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn. Cyflogau yw tâl blynyddol, amser llawn cyfatebol yr holl staff (gan gynnwys staff asiantaeth a staff dros dro) ar 31 Mawrth 2019. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Blwydd-daliad y Cyflogwr.  Nid oes unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2018-19 nac yn 2017-18.

| Mesur | 2018–19 Cyflog £ | 2017–18 Cyflog £ |
|---|---:|---:|
| Band y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf | 130,000 – 135,000 | 125,000-130,000 |
| Cyfanswm taliad canolrifol | 34,315 | 33,304 |
| Cymhareb | 3.86 | 3.83 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19 oedd £130,000 - £135,000 (2017-18, £125,000 - 130,000). Roedd hyn yn 3.86 gwaith (3.83 yn

2017-18) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £34,315 (£33,304 yn 2017-18).

Y prif ffactor sy’n cyfrannu at y cynnydd o tua thri y cant yn y cyflog canolrifol yw dyfarniad cyflog a gafodd ei weithredu ym mis Awst 2018.  Mae’r gymhareb wedi cynyddu 0.8 y cant gan fod cyflog y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf wedi symud i fyny un band.

Yn 2018-19 ac yn 2017-18, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £18,000, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn derbyn Cyflog Byw, i £132,000 (2017-18, £16,000 i£125,000).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod.

## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – budd-daliadau pensiwn***

| Gwir gynnydd mewn pensiwn[61] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig[62] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2019[63] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad:*** Manon Antoniazzi - o 24 Ebrill 2017 | | | | |
| 2.5-5.0 | 15-20 | 206 | 150 | 29 |
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad:*** *Claire Clancy - hyd at 23 Ebrill 2017* | | | | |
| amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | 1,672 | amherthnasol |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad:*** *Adrian Crompton – hyd at 20 Gorffennaf 2018* | | | | |
| 0-2.5 a chyfandaliad o 0 | 50-55 a chyfandaliad o 120-125 | 891 | 880 | 2 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad:*** *Siwan Davies – o 4 Chwefror 2019* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 4 | - | 3 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau:*** *Dave Tosh* | | | | |
| 0-2.5 | 40-45 | 633 | 541 | 23 |
| ***Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn:*** *Craig Stephenson* | | | | |
| 2.5-5 a chyfandaliad o 10-12.5 | 45-50 a chyfandaliad o 140-145 | 1,033 | 856 | 85 |
| *Prif **Gynghorydd Cyfreithiol:** Elisabeth Jones* | | | | |
| 0-2.5 | 40-45 | 856 | 756 | 17 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ymddeolodd Claire Clancy o'r Comisiwn ar 23 Ebrill 2017 a chyfrifwyd y ffigur CETV uchod ar y dyddiad hwnnw.

[61] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.

[62] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2019 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol ac ar y dyddiad maent yn peidio â dal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.

[63] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan PCSPS bedair adran: tair sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Roedd aelodau presennol PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y Cynllun ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae pob aelod sy'n newid i alpha wedi bancio eu budd-daliadau o PCSPS, gyda'r rhai sydd â budd-daliadau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y budd-daliadau hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol panfyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fudd-daliadau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw'r gwerth cyfunol o'i fudd-daliadau yn y ddau gynllun.)

Gall yr aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflogau ac maent rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Mae buddion yn y cynllun classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â'r tair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yn y

cynllun premium yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun classic plus gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun classic ac mae'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun premium. Gyda chynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o gyflog pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae budd-daliadau yn alpha yn cynyddu mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai gan banel o ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer uwch-aelodau o staff yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun alpha - fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fudd-daliadau yn y PCSPS ac alpha, ffigur a ddyfynnir yw'r gwerth cyfunol o'i fudddaliadau yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Mae rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gaelar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Y Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiadyr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV awneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Mae manylion am y rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i'r VES i'w gweld yn Nodyn 2 D (ar dudalen 158). Mae rhagor o wybodaeth yn adran Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth yr Adroddiad Blynyddol.

## Nifer y staff

Nifer y staff fesul categori

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Dyma nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr):

***Tabl 5: Staff cyfwerth ag amser llawn cyfartalog***

| Categori | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 432.49 | 433.11 |
| Staff ar secondiad | 2.29 | 3.55 |
| Staff dros dro/achlysurol | 8.01 | 14.53 |
| **Cyfanswm** | **442.79** | **451.19** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 454 o staff cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2018: 445).

***Tabl 6: Cyfansoddiad y staff yn ôl rhywedd a band****

| **Categori** | **31 Mawrth 2019** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth Rhywedd arall | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 3 | 2 | 0 | 0 | **5** |
| Staff | 241 | 232 | 0 | 0 | **473** |
| **Cyfanswm** | **244** | **234** | **0** | **0** | **478** |

| **Categori** | **31 Mawrth 2018** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth Rhywedd arall | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 3 | 0 | 0 | **5** |
| Staff | 232 | 231 | 0 | 0 | **463** |
| **Cyfanswm** | **234** | **234** | **0** | **0** | **468** |

*Yn y tablau uchod caiff staff a gyflogir eu nodi fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, nodir fod y dadansoddiad o ran rhywedd yn niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol yn cael eu cynnwys yn y ffigurau amser llawn na'r dadansoddiad o ran rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 3.66 ycant (3.77 y cant yn 2017-18), neu 7.75 (8.29 yn 2017-18) o ddiwrnodau gwaith cyfartalog y person.  Mae'r Comisiwn yn cadw ffocws strategol ar reoli absenoldeb ac yn cefnogi absenoldebau'n weithredol drwy Reolwyr Llinell, Adnoddau Dynol a chymorth Iechyd Galwedigaethol.

Mae absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a lles bellach yn cyfrif am 35% o gyfanswm yr absenoldeb ac mae hynny'n ein hannog i ganolbwyntio'n parhaus ar sut y gallwn gefnogi staff i reoli effaith bersonol ac sy'n gysylltiedig â gwaith.  Mae'r ffocws hwn wedi cynnwys sesiynau lles ar gyfer staff yr effeithir arnynt a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu cartref, codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymysg pobl ifanc, newid i arferion gwaith a gynlluniwyd i gefnogi cydbwysedd bywyd a gwaith a chyflwyno pobl cymorth cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig.  Credwn y bydd y camau hyn yn helpu i sicrhau gostyngiad mewn absenoldeb.  Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn 2019-20.

## Anabledd

Mae gennym fesurau ar waith i gefnogi cyflogeion sy'n nodi bod ganddynt anabledd Mae ein Polisi Llenwi Swyddi Gwag yn cyfeirio at ein sefyllfa gyfweld gwarantedig ar gyfer ymgeiswyr sy'n bodloni'r gofynion lleiaf, sydd hefyd yn gymwys yn fewnol ar gyfer cyflogeion sy'n ceisio dyrchafiad.

Gwneir addasiadau rhesymol, lle bynnag y bo'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng cyflogeion a rheolwyr ar gyfer cyflogeion sy'n gweithio neu'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu ddatblygu salwch a all gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Ein Pobl

Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr gan eu bod yn hanfodol i gyflawni nodau strategol, strategaeth a gwerthoedd corfforaethol y Comisiwn.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu, ymgynghori a chytuno ar ddull strategol newydd i roi ffocws clir ar flaenoriaethau pobl y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad a thu hwnt.  Rydym wedi nodi pedwar nod rhyngberthynol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiad ymhellach:

- Rydym am ddenu, cadw a chydnabod yr ystod ehangaf o dalent;
- Rydym am sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i ymateb i flaenoriaethau sy'n newid;
- Byddwn yn adeiladu gallu sefydliadol drwy gyfrwng diwylliant o arweinyddiaeth a rheolaeth gwerthfawrogol; a
- Rydym am fynd ati'n barhaus i ddatblygu diwylliant gwaith sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cefnogi iechyd a lles holl gyflogeion y Comisiwn.

Mae gennym bolisïau a systemau ar waith i gefnogi holl staff y Comisiwn i ddatblygu eu sgiliau'n barhaus, nodi cyfleoedd newydd, cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a rhoi gwybod iddynt am ddatblygiadau allweddol ar sut y mae'r Cynulliad yn gweithredu.   Credwn y dylai pob aelod o staff gael mynediad at y datblygiad y mae ei angen arnynt i wneud eu gwaith, ac rydym yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu diwylliant dysgu lle mae sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ein staff yn cael eu datblygu'n barhaus.

Mae'r disgwyliadau ar staff y Comisiwn yn uchel. Mae'r strategaeth Poblyn ceisio sicrhau bod ein trefniadau cyflogaeth yn ein galluogi i ddenu a chadwpobl sydd â'r sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethaugorau posibl.

Mae ymgysylltu â staff yn amcan craidd a nodir yn y Strategaeth Pobl, ac rydym yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein dulliau gweithredu yn ystod 2018-19, wedi datblygu ein gwerthoedd sefydliadol, ac wedi cyflwyno fforwm ymgysylltu â staff i weithio

ochr yn ochr â'n rhwydweithiau staff presennol a'n partneriaeth Ochr yr Undebau Llafur.

## Perthynas undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff sy'n cynnwys rheolwyr a chynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur.  Mae'n cwrdd yn chwarterol. Gall y naill ochr a'r llall godi pynciau i'w trafod; yn gyffredinol, maent yn bynciau sy'n cael effaith ar draws Comisiwn y Cynulliad.  Mae gan bob un o'r tair Undeb swyddogol (PCS, FDA a Prospect) eu cynrychiolwyr eu hunain ond mae'r tair yn gweithio'n rheolaidd gyda'i gilydd i gynrychioli holl aelodau'r Undeb

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael yn yr adran Defnyddio adnoddau'n ddoeth ar dudalennau 62.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 15 Gorffennaf 2019

# Atebolrwydd ac archwilio

## Datganiad am gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2018-19

| | | Cyllideb | Alldro | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/ (gorwariant) £'000 | Alldro £'000 |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Nodyn SOS 01 | 37,887 | 38,216 | (329) | 37,748 |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 15,701 | 14,731 | 970 | 14,408 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 1,500 | 1,418 | 82 | 1,696 |
| | | **55,088** | **54,365** | **723** | **53,852** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad Perfformiad.

## b) Gofyniad arian parod net 2018-19

| | | Cyllideb | Alldro | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/ (gorwariant) £'000 | Alldro £'000 |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 51,538 | 50,156 | 1,382 | 50,172 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Gellir gweld SOS 03 yn yr Atodiad - adroddiadau rheoleidd-dra, tudalen 169.

Trosolwg

Dadansoddiad o berfformiad

Atebolrwydd

Datganiadau ariannol

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

## (Datganiad am gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2018-19***

| Gwariant refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 23,507 | 24,399 | 892 | 24,399 | 892 | 22,279 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 14,712 | 13,288 | (1,424) | 13,288 | (1,424) | 15,595 |
| Gwariant refeniw gros | 38,219 | 37,687 | (532) | 37,687 | (532) | 37,874 |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (181) | (300) | (119) | (300) | (119) | (193) |
| Gwariant refeniw net | 38,038 | 37,387 | (651) | 37,387 | (651) | 37,681 |
| Gwariant cyfalaf | 178 | 500 | 322 | 500 | 322 | 67 |
| Alldro adnoddau net (Gwariant y Comisiwn) | 38,216 | 37,887 | (329) | 37,887 | (329) | 37,748 |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 14,731 | 16,201 | 1,470 | 15,701 | 970 | 14,408 |
| Alldro adnoddau | 52,947 | 54,088 | 1,141 | 53,588 | 641 | 52,156 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,418 | 2,000 | 582 | 1,500 | 82 | 1,696 |
| Cyfanswm alldro adnoddau net | 54,365 | 56,088 | 1,723 | 55,088 | 723 | 53,852 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 142 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Dadansoddiad o alldro adnoddau net – Sylwadau rheoli

Yr alldro adnoddau, cyn costau cyllid pensiwn, ar gyfer 2018-19 oedd £53.0 miliwn yn erbyn cyllideb o £53.6 miliwn, gan arwain at danwariant cyffredinol o £0.6 miliwn (1.1 y cant).

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Comisiwn y Cynulliad wedi adleoli adnoddau nas defnyddiwyd o gyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau er mwyn ariannu gofynion blaenoriaeth yn hytrach na gorfod gofyn am Gyllideb Atodol.

Yn 2018-19, nododd y Comisiwn yn ei ddogfen Cyllideb mai dim ond £0.6 miliwn o unrhyw danwariant ar y llinell hon a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel hyn. Felly roedd y tanwariant gweithredol ar adnoddau i'w ddefnyddio gan y Comisiwn yn £0.3 miliwn neu 0.5 y cant.

Roedd tanwariant yn erbyn adnoddau'r Bwrdd Taliadau o tua chwech y cant yn bennaf yn sgil lefel uchel o gymhellion ymhlith staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Fel y nodwyd uchod, defnyddiwyd £0.6 miliwn o'r tanwariant hwn gan y Comisiwn ar flaenoriaethau buddsoddi.

Yn ystod 2018-19, datblygwyd nifer o feysydd buddsoddi. Roedd y rhain yn cynnwys y Senedd Ieuenctid gyntaf, Diwygio'r Cynulliad, datblygu technoleg newydd i brosesu hawliadau treuliau Aelodau, gwaith seilwaith yn Nhŷ Hywel, cyfnewid offer TGCh a datrysiadau technoleg i gefnogi Cyfarfodydd Llawn, Pwyllgorau ac ymchwil.

Hefyd, roedd cyflogau staff a chostau cysylltiedig wedi tanwario yn erbyn y gyllideb o tua pedwar y cant o ganlyniad i lefel uwch na'r arfer o staff. Defnyddiwyd y tanwariant hwn i ariannu'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES). Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r VES wedi'u cynnwys o fewn costau nad ydynt yn gostau staff, a oedd, o ganlyniad, yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd. Mae mwy o fanylion am y VES i'w gweld yn Nodyn 2D.

Mae cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol (GRF) y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2018-19 ym mis Tachwedd 2017 a gwnaed yr amcangyfrif sydd ei angen ar gyfer gwariant GRF o £2.0 miliwn ar sail data sydd ar gael ar y pryd.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 142 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

Ym mis Mehefin 2018, derbyniodd y Comisiwn amcangyfrifon wedi'u diweddaru gan gynghorwyr proffesiynol. Roedd y cyfrifiadau newydd yn adlewyrchu newidiadau hysbys i'r newidynnau sy'n effeithio ar amcangyfrifon rhwymedigaethau'r cynllun ac sydd wedi arwain at amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2018-19 o tua £1.4 miliwn.

Cyflwynodd y Comisiwn gyllideb atodol GRF o £1.5 miliwn er mwyn caniatáu bod arian wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau diwedd blwyddyn terfynol. Y ffigur diwedd blwyddyn a gadarnhawyd oedd £1.4 miliwn, a olygai fod tanwariant o £0.1 miliwn. Yn ogystal, dychwelodd y gyllideb atodol £0.5 miliwn o'r tanwariant a ragwelwyd o fewn cyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau.

***SOS 02. Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net***

| | Nodyn | 2018-19 £000 | 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 54,365 | 53,852 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (178) | (67) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 728 | 701 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 05 | - | - |
| **Gwariant gweithredu net** | | **54,915** | **54,486** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £728,112 (£701,480 yn 2017-18) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net. Tynnwyd cyfanswm o £741,551, yr oedd £728,112 ohono'n ymwneud â chostau o 2018-19 a'r balans o £13,438 yn ymwneud â chyfnodau blaenorol. Cronnwyd swm o £13,438 fel cost yng nghyfrifon blynyddol 2017-18.

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar archwilio'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys ac mae Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2019, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran hynny o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaetharchwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i'm barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi roi gwybod i chi amdanynt:

- nid yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a all achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'r adroddiad archwilydd arno.  Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf, heblaw i'r graddau a nodir fel arall yn fy adroddiad, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'm gwaith archwilio o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw i ddarllen y wybodaeth arall er mwyn nodi unrhyw anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy'n ymddangos yn anghywir, a hynny ar sail y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu oherwydd unrhyw anghysondeb o bwys a welaf rhwng y datganiadau a'r wybodaeth a gaf. Os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau penodol amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys Ei Mawrhydi am daliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol, a hynny'n unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed oddi tano, am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Prif Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau bod modd paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol fel rhai cymwys, a defnyddio'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu oni bai y bernir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol o ran pa un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau o bwys ai peidio, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn rhai o bwys, os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau o ran rheoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

Rhaid imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Anthony J Barrett**
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru
16 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.


CAERDYDD
CARDIFF

# DATGANIADAU ARIANNOL

# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019***

| **Incwm o weithrediadau** | **Nodyn** | **2018-19 £'000** | **2017-18 £'000** |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 181 | 193 |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | | **181** | **193** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 28,432 | 27,956 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 8,592 | 8,629 |
| Costau cyllid pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 1,418 | 1,696 |
| Dibrisiant a thaliadau amhariad | 3 | 2,319 | 2,582 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 14,335 | 13,816 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **55,096** | **54,679** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **54,915** | **54,486** |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | | **54,915** | **54,486** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| ▪ (Enillion)/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 2a a 9 | 1,631 | (2,460) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **56,546** | **52,026** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai a geir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2019***

| **Asedau anghyfredol:** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2018 £'000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 59,986 | 62,114 |
| Asedau anniriaethol | 5 | - | 13 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **59,986** | **62,127** |
| **Asedau presennol:** | | | |
| Stoc | | 13 | 19 |
| Symiau masnachol a symiau i'w derbyn | 6 | 1,724 | 1,745 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 292 | 73 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **2,029** | **1,837** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **62,015** | **63,964** |
| **Rhwymedigaethau presennol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (4,929) | (4,265) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(4,929)** | **(4,265)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **57,086** | **59,699** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (18,148) | (15,099) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(18,148)** | **(15,099)** |
| **Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau** | | **38,938** | **44,600** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill:** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 41,344 | 43,957 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | | (18,028) | (14,979) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 15,622 | 15,622 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **38,938** | **44,600** |

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 15 Gorffennaf 2019

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 142 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Datganiad Llif Arian

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019***

| | Nodyn | 2018-19 £'000 | 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (54,915) | (54,486) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod: | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 4 a 5 | 2,319 | 2,582 |
| Gostyngiad mewn stoc | | 6 | 4 |
| Gostyngiad mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 21 | 20 |
| (Gostyngiad) / cynnydd mewn masnach a symiau taladwy eraill | 8 | 664 | (623) |
| Y (gostyngiad) / cynnydd mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | | (219) | 1 |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 1,418 | 1,696 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(50,706)** | **(50,806)** |
| Llif arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (178) | (67) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(178)** | **(67)** |
| Llif arian o weithgareddau cyllido | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 50,448 | 50,245 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | | 728 | 701 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (73) | (74) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | | **51,103** | **50,872** |
| Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | 219 | (1) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 73 | 74 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **292** | **73** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 142 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019***

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol £'000 | Y gronfa ailbrisio wrth gefn £'000 | Cronfa bensiwn wrth gefn £'000 | Ecwiti'r trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **45,874** | **15,622** | **(15,743)** | **45,753** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (54,486) | - | 2,460 | (52,026) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | | 1,696 | - | (1,696) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad (awdurdodedig) | | 50,245 | - | - | 50,245 |
| ▪ Taliadau uniongyrchol | | 701 | - | - | 701 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad | | (73) | - | - | (73) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **43,957** | **15,622** | **(14,979)** | **44,600** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (54,915) | - | (1,631) | (56,546) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,418 | - | (1,418) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 3 | 51,538 | - | - | 51,538 |
| ▪ Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 3 | (1,090) | - | - | (1,090) |
| ▪ Taliadau uniongyrchol | | 728 | - | - | 728 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad | | (292) | - | - | (292) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **41,344** | **15,622** | **(18,028)** | **38,938** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 142 i 168 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Nodiadau sy’n cyd-fynd â’r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2018-19 (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae’r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i’r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i’r sector cyhoeddus.

Pan fo’r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu’r Comisiwn eu cymhwyso’n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i’r cyfrifon. Yn ogystal â’r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae’r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2018-19 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn, a chanfuwyd nad effeithir ar ddatganiadau ariannol y Comisiwn.

### Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ailbrisiwyd yn unol â’r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

### Eiddo, offer a chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai’r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

## Dibrisio asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

## Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei gynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

## Asedau anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog annirweddol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased.

## Asedau a geir yn rhodd

Caiff asedau a roddwyd eu cyfalafu ar y gwerth cyfredol ar ôl eu derbyn a chânt eu hailbrisio fel arfer yn yr un ffordd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a roddwyd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

## Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.

Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac adeiladau: | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio |
| Cyfarpar TGCh, clyweledol adarlledu: | Pedair i chwe blynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 mlynedd |
| Asedau annirweddol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

## Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law, felly, oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw a wireddwyd ar y prisiad, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ar ôl gwaredu'r ased.

## Cydrannau asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh yn cael eu "grwpio" i TGCh; cyfarpar clyweledol a darlledu; seilwaith TGCh ac asedau anniriaethol. Bydd y gwahanol rannau'n cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol.

## Datganiad gwariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae'r incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu'r Aelodau mewn perthynas â threuliau neu gostau yr eir iddynt ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau, yn amodol ar yr amrywiol derfynau ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad

## Stoc

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.

## Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a gyda banciau masnachol, y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Cost les weithredol

Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## Adroddiadau cylchrannol

Mae'r rheolwyr yn fodlon, o dan ofynion Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 8, nad oes gan y sefydliad ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

## Budd-daliadau i gyflogeion

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fudd-daliadau sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

## Pensiynau

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff sydd wedi'u secondio i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelod o'r Cynllun. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y Cynllun ar ddiwedd mis Mawrth 2016 ar 26 Chwefror 2019. Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fo hynny'n ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cyfrifon Pensiwn Sifil (**http://www.civilservice.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

### Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cynllun buddion diffiniedig yw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau ar hyn o bryd yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, sydd ar wahân i gyfrifon y Comisiwn, ac **mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Cynulliad**[64].

[64] http://www.assembly.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994 a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, ac mae wedi'i eithrio rhag TAW yng nghyswllt darparu nwyddau a gwasanaethau'r Cynulliad.  Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

## Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

- Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.
- Dadfeilio. Darpariaeth ddadfeilio yw'r asesiad o'r gost debygol o gywiro dadfeilio o dan delerau prydles Tŷ Hywel. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr adeilad a brydlesir ganddo yn cael ei gadw i'r fath safon fel nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio, gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw a'r adolygiad blynyddol a chytuno â'r flaenraglen waith 10 mlynedd.
- Yn 2016-17, crëwyd darpariaeth yn y swm o £120,000 i'w ddarparu'n benodol ar gyfer y gost o symud y pontydd troed rhwng Tŷ Hywel a'r Senedd a thrwsio wal Tŷ Hywel ar ôl eu symud.

## 02. A- Costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am niferoedd yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) ar gael yn yr Adran Atebolrwydd – Taliadau a Staff.

### Costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a staff

*Tabl 7: Mae costau staff yn cynnwys*

| Categori | Staff £'000 | Aelodau a deiliaid swyddi £'000 | Cyfanswm 2018-19 £'000 | Cyfanswm 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 16,320 | 5,192 | 21,512 | 21,178 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | 9 | - | 9 | 28 |
| Staff ar secondiad | 85 | - | 85 | 222 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 1,772 | 655 | 2,427 | 2,382 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | 1 | - | 1 | 3 |
| Staff ar secondiad | 10 | - | 10 | 24 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 3,458 | 1,020 | 4,478 | 4,172 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | 1 | - | 1 | 6 |
| Staff ar secondiad | 16 | - | 16 | 38 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 21,672 | 6,867 | 28,539 | 28,053 |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (107) | - | (107) | (97) |
| **Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **21,565** | **6,867** | **28,432** | **27,956** |

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel y noda'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 60 Aelod Cynulliad mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 42 o ddeiliaid swyddi, yr oedd 14 ohonynt yn rhan o'r Cabinet: un Prif Weinidog, un Dirprwy Weinidog a'r Prif

Chwip, saith Gweinidog, pedwar dirprwy weinidog ac un Gweinidog sydd hefyd yn Gwnsler Cyffredinol.

## Trefniadau ar gyfer Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2018-19, roedd cyfraniadau cyflogwr o £3.443 miliwn (£3.387 miliwn yn 2017-18) yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20 y cant i 24.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn.  Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Mae cyflogeion newydd ers 1 Ebrill 2015 yn gymwys i ymuno â naill ai alpha neu partnership.  Cynllun pensiwn budd-daliadau diffiniedig cyfartalog gyrfa yw alpha; mae partnership yn gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth.  Roedd y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r pensiwn partnership yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn £16,318 (£11,838 yn 2017-18).  Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gaelar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

## Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun budd-daliadau diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi dilyniant i'r Cynllun.  Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu buddiannau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad gynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa newydd ar gyfer Aelodau. Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a daeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae

Aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021.

Mae gan y Cynllun gyfradd gronnus o 1/50fed ac oedran pensiwn sy'n gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd cyfraniad yr Aelodau yw 10.5 y cant ar gyfer aelodau newydd a'r rhai sy'n symud i'r cynllun CARE ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021. Bydd yr aelodau hyn yn parhau i gyfrannu ar eu cyfradd gyfredol o naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer croniad deugeinfed neu hanner canfed yn y drefn honno. Bydd cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn 19.9 y cant a bydd yn destun cap.

Mae yna gysylltiad rhwng Oed Ymddeol Arferol ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag yw'r uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar Oed Ymddeol Arferol sef 65 mlwydd oed.

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad, gan Mobius Life Limited, a chânt eu rheoli gan bedwar rheolwr buddsoddi. Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cronfa Twf Amrywiol, cronfa Elw Absoliwt, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Ecwiti, cronfa Eiddo a chronfa Giltiau Mynegrifol.

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae manylion am y cyflogau a'r lwfansau yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018.

Y prif amcan ariannu yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r budd-daliadau a addawyd i'r aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn fel y cynghorir gan Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan gymryd i ystyriaeth gyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau bod budd-daliadau cronnus yn cael eu talu yn ystod cyfranogiad aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y taliadau sy'n cael eu talu gan y Cynulliad ar gyfer budd-daliadau cronnus yn rhesymol sefydlog dros amser. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy benderfynu ar gyfradd gyfrannu a fynegir fel canran lefel o gyflog pensiynadwy o'r enw Cyfradd Cyfraniad Safonol. Mae'r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r budd-daliadau o dan y Cynllun, ar yr amod bod profiad yn unol â'r tybiaethau actiwaraidd a

wnaed. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronnus a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir ym mhob prisiad actiwaraidd tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu lai am gyfnod i ganiatáu, yn arbennig, am ailddefnyddio gwargedion a diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, ac mae incwm cyfraniad yn dal i fod yn fwy na threuliau budd-daliadau rheolaidd. Mae hyd cyfartalog pwysol rhwymedigaethau'r cynllun yn tua 20 mlynedd.

*Tabl 8: Dyma'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol*

| | Nodyn | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (55,178) | (50,385) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 37,150 | 35,406 |
| **Rhwymedigaeth net** | | **(18,028)** | **(14,979)** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (18,028) | (14,979) |
| Asedau | | - | - |
| **Rhwymedigaeth net** | **9** | **(18,028)** | **(14,979)** |

*Tabl 9: Dadansoddiad o'r symiau a drosglwyddwyd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr*

| | **2018-19 £'000** | **2017–18 £'000** |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,974 | 2,016 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,304 | 1,329 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (909) | (924) |
| | **2,369** | **2,421** |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau pensiwn eraill | 951 | 725 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,418 | 1,696 |
| | **2,369** | **2,421** |

*Tabl 10: Dadansoddiad o'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)*

| | **2018-19 £'000** | **2017-18 £'000** |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 388 | 669 |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (370) | 297 |
| Newidiadau mewn tybiaethau | (1,649) | 1,494 |
| **(Colledion)/enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **(1,631)** | **2,460** |

*Tabl 11: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn*

| | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2018 £'000** |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 50,385 | 49,456 |
| Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau ) | 1,974 | 2,016 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 497 | 472 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,001) | (1,097) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,304 | 1,329 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | 2,019 | (1,791) |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **55,178** | **50,385** |

*Tabl 12: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn*

| | **31 Mawrth 2019 £'000** | **31 Mawrth 2018 £'000** |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 35,406 | 33,713 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 909 | 924 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 388 | 669 |
| Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 951 | 725 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 497 | 472 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (1,001) | (1,097) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **37,150** | **35,406** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £982,096 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2019-20.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 13: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 45% | 41% |
| Buddsoddiadau amgen | 5% | 12% |
| Eiddo | 9% | 10% |
| Llog sefydlog ac arian parod | 41% | 37% |
| | **100%** | **100%** |

Cynhaliodd y Bwrdd Pensiwn adolygiad o strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn 2017. O ganlyniad i'r adolygiad, mae asedau'r Cynllun wedi'u buddsoddi mewn amrywiaeth eang o gronfeydd, fel a ganlyn:

- Baillie Gifford Diversified Growth
- Invesco Perpetual Global Targeted Returns
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations
- LGIM Ethical Global Equity Index
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt

Rhagwelir y bydd y strategaeth fel yn sicrhau enillion disgwyliedig yn debyg i'r enillion a gynhyrchwyd drwy strategaeth fuddsoddi flaenorol y Cynllun, ond y bydd lefel ddisgwyliedig y risg yn is.

Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2018-19 oedd £1.420 miliwn (£1.721 miliwn yn 2017-18).

## Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

***Tabl 14: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| Tybiaeth | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| Cyfradd y disgownt | 2.45% | 2.55% |
| Cynnydd enillion yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | -1.90% | -1.65% |
| Cynnydd pensiwn yn y dyfodol (CPI) - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | 0.10% | 0.25% |
| Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd) | | |
| Dynion | 24.5 | 24.4 |
| Aelodau benywaidd | 25.9 | 25.8 |
| Gweddwon | 24.6 | 24.5 |

## Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau

Os bydd y gyfradd wirioneddol o enillion sy'n fwy nag enillion yn newid 0.5 y cant y flwyddyn, byddai'r atebolrwydd actiwaraidd cyfan yn newid tua 1 y cant a'r newid yn yr holl rwymedigaethau tua £0.5 miliwn.

Pe byddai cyfradd wirioneddol yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 0.5 y cant, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 10 y cant, a byddai newid o tua £5.5 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy gan ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd tua 7 y cant a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £4.0 miliwn.

Dyma'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

***Tabl 15: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 55,178 | 50,385 | 49,456 | 38,352 | 38,175 |
| Asedau'r cynllun | 37,150 | 35,406 | 33,713 | 29,669 | 29,028 |
| Rhwymedigaeth Net | (18,028) | (14,979) | (15,743) | (8,683) | (9,147) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (370) | 297 | 160 | 338 | 1,306 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 388 | 669 | 3,615 | (1,041) | 1,477 |

Mae rhagor o wybodaeth am **Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad**[65] ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

[65] http://www.assembly.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

## 02. B – Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr Aelodau gwerth £8.592 miliwn (£8.629 miliwn 2017-18) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| Categori | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Costau Swyddfa | 982 | 1,035 |
| Costau ychwanegol | 272 | 263 |
| Cyfanswm Staff yr Aelodau | 7,119 | 7,094 |
| Costau teithio | 219 | 237 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **8,592** | **8,629** |

Mae costau staff yr Aelodau yn cynnwys un taliad diswyddo, sy'n gyfanswm o £2,859 a wnaed yn 2018-19, (2 daliad am gyfanswm o £26,570 a wnaed yn 2017-18).

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynllun rhanddeiliaid grŵp (cyfraniad diffiniedig) gydag AVIVA ac mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant o gyflog gros i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Hefyd, gall cyflogai ddewis gwneud cyfraniad misol rheolaidd drwy aberthu rhan o'i gyflog. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig gan mai dyddiad cyflwyno'r cynllun oedd 1 Ionawr 2017. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2018-19 oedd £681,557 (£635,213 yn 2017-18).

## 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Y Comisiynydd Safonau yw Syr Roderick Evans a ymgymerodd â'r swydd ar 1 Rhagfyr 2016 Mae'r swydd yn benodiad tymor sefydlog 6 blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Syr Roderick Evans a'i waith ar gael yn http://comisiynyddsafonaucymru.org/

### Y Comisiynydd Dros Dro

Ym mis Tachwedd 2018 cytunodd y Cynulliad i benodi Douglas Bain fel Comisiynydd Dros Dro i weithredu ar faterion yn ymwneud â chwyn benodol a chwynion dilynol a dderbyniwyd ar yr un mater. Daeth y penodiad i rym ar 7 Tachwedd 2018 a daeth i ben ar 25 Ebrill 2019 pan roddwyd rhybudd i'r Comisiynydd Dros Dro gan Glerc y Cynulliad. Pennwyd tâl i'r Comisiynydd dros dro yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol o £392 (pro-rata am ran o ddiwrnod) am weithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl a chyfrifoldebau'r swydd, ynghyd â threuliau rhesymol.

Cafwyd cwynion yn ymwneud â mater yr oedd y Comisiynydd presennol wedi edrych arno yn y gorffennol. Felly, barnodd y Comisiynydd presennol nad oedd yn gallu gweithredu mewn perthynas â'r cwynion newydd ac argymhellodd y dylid penodi Comisiynydd Dros Dro i ddelio â'r cwynion. Mae'r ddwy rôl yn rhedeg yr un pryd, gyda'r Comisiynydd Dros Dro yn edrych i mewn i'r gŵyn benodol yn unig ac yn y rôl hyd nes y bydd y gŵyn wedi'i chwblhau.

### Cefnogaeth staffio

Yn ystod y flwyddyn, cryfhawyd y gefnogaeth sydd ar gael i swyddfa'r Comisiynydd Safonau. Tan fis Tachwedd 2018, cefnogwyd y swyddfa ar sail rhan-amser gan un unigolyn a gyflogwyd gan Gomisiwn y Cynulliad. Ers hynny mae dau aelod o staff y Comisiwn wedi'u secondio i ddelio â faint o waith achos sy'n cael ei ystyried ac i sicrhau bod y swyddfa'n rhedeg yn effeithiol.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2018-19 | | 2017-18 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | 336 | | 234 | |
| Costau'r Comisiynydd | - | £26,105 | | £19,715 |
| Oriau'r Comisiynydd Dros Dro | 81 | - | - | |
| Costau'r Comisiynydd Dros Dro | - | £5,481 | - | - |
| Oriau Staff Cymorth | 1,333 | - | 161.5 | - |
| Costau Staff Cymorth | - | £44,798 | - | £5,756 |
| **Cyfanswm yr Oriau / Costau** | **1,750** | **£76,384** | **395.5** | **£25,471** |

## 02. D – Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Lansiodd Comisiwn y Cynulliad Gynllun Ymadael Gwirfoddol ar draws pob gwasanaeth ar 22 Tachwedd 2018. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 18 Ionawr 2019. Rhoddwyd cymeradwyaeth i gyfanswm o 24 o bobl adael.

Ar 31 Mawrth 2019 nid oedd un o'r staff a gafodd gymeradwyaeth wedi gadael ac roedd rhwymedigaeth ar y Comisiwn i wneud taliadau i 24 aelod o staff yn ystod 2019-20. Cyfanswm cost y rhwymedigaeth hon ar 31 Mawrth 2019 oedd £1,104,000. Adlewyrchir hyn yn SOS 03 ar dudalen 169 lle adroddir na wnaeth y Comisiwn dynnu £1.1 miliwn o'i gyllideb arian parod ar gyfer y flwyddyn.

| Band cost y pecyn ymadael | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2018-19 |
|---|---|
| £0 - £20,000 | 5 |
| £20,001 - £40,000 | 5 |
| £40,001 - £60,000 | 8 |
| £60,001 - £80,000 | 3 |
| £80,001 - £100,000 | 1 |
| £100,000 - £150,000 | 2 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 24 |
| **Cyfanswm y gost adnoddau (£'000)** | **1,104** |

Ni wnaed unrhyw daliadau diswyddo i staff y Comisiwn yn 2018-19 yn ychwanegol i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Roedd un taliad diswyddo i aelod o staff yn 2017-18 fel rhan o becyn setliad wedi'i negodi gwerth cyfanswm o £95,000.

Mae dau Gyfarwyddwr wedi'u cynnwys yn nifer y pecynnau ymadael a ddangosir uchod ac felly datgelir manylion yn yr adroddiad Taliadau a Staff.

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £16.7 miliwn (£16.4 miliwn yn 2017-18) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---:|---:|
| Prydlesau – adeiladau | 2,800 | 2,826 |
| Prydlesau – arall | 102 | 150 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,342 | 5,677 |
| Costau TGCh | 2,786 | 2,906 |
| Treuliau gweinyddol | 1,629 | 1,720 |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 1,676 | 537 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **14,335** | **13,816** |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 2,319 | 2,582 |
| **Cyfanswm Costau gweinyddol eraill** | **16,654** | **16,398** |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £57,958 (2017-18, £57,958). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn 2018-19 (2017-18, dim).

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Dodrefn a gosodiadau[66] £'000 | Cerbydau £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | 2018-19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **61,641** | **15,147** | **1,701** | **80** | **-** | **78,569** |
| Ychwanegiadau | - | - | 166 | - | 12 | 178 |
| Gwarediadau | - | (8,330) | (491) | (80) | - | (8,901) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **61,641** | **6,817** | **1,376** | **-** | **12** | **69,846** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **(1,716)** | **(13,448)** | **(1,211)** | **(80)** | **-** | **(16,455)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,716) | (510) | (80) | - | - | (2,306) |
| Rhyddhawyd wrth waredu | - | 8,330 | 491 | 80 | - | 8,901 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **(3,432)** | **(5,628)** | **(800)** | **-** | **-** | **(9,860)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **58,209** | **1,189** | **576** | **-** | **12** | **59,986** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018** | **59,925** | **1,699** | **490** | **-** | **-** | **62,114** |

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y tir a'r adeiladau hyn, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2017, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbrisio ar gost adnewyddu dibrisiedig fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd ymagwedd y prisiwr yn cynnwys cyfrifo cost adeiladu adeiladau cyfatebol modern a dibrisio'r gost i gyfrif am oes a bywyd economaidd yr adeiladau yn y dyfodol.

Ni nodwyd unrhyw arwyddion o nam yn yr adolygiadau amhariad ar 31 Mawrth 2019 ac felly ni nodwyd unrhyw amhariadau.

[66] Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Dodrefn a gosodiadau[67] £'000 | Cerbydau £'000 | 2017-18 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **61,641** | **15,080** | **1,701** | **80** | **78,502** |
| Ychwanegiadau | - | 67 | - | - | 67 |
| Ailddosbarthu a throsglwyddiad au | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **61,641** | **15,147** | **1,701** | **80** | **78,569** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **-** | **(12,757)** | **(1,129)** | **(80)** | **(13,966)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,716) | (691) | (82) | - | (2,489) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **(1,716)** | **(13,448)** | **(1,211)** | **(80)** | **(16,455)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018** | **59,925** | **1,699** | **490** | **-** | **62,114** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017** | **61,641** | **2,323** | **572** | **-** | **64,536** |

[67] Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

Trosolwg

Dadansoddiad o berfformiad

Atebolrwydd

Datganiadau ariannol

## 05. Asedau annirweddol

Mae'r asedau annirweddol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2019 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **2,317** | **2,317** |
| Gwarediadau | (1,433) | (1,433) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **884** | **884** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **(2,304)** | **(2,304)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (13) | (13) |
| Gwarediadau | 1,433 | 1,433 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **(884)** | **(844)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **-** | **-** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 13 | 13 |

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2018 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **2,317** | **2,317** |
| Ychwanegiadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,317** | **2,317** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **(2,211)** | **(2,211)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (93) | (93) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **(2,304)** | **(2,304)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018** | **13** | **13** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017 | 106 | 106 |

## 06. Symiau masnachol a symiau i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 87 | 52 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 22 | 34 |
| Rhagdaliadau | 1,290 | 1,310 |
| TAW y gellir ei hadennill | 325 | 349 |
| | **1,724** | **1,745** |

Nid oedd unrhyw symiau i'w derbyn gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 73 | 74 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 219 | (1) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **292** | **73** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 204 | 58 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 88 | 15 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **292** | **73** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2019<br>£'000 | 31 Mawrth 2018<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW | 15 | 8 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 773 | 758 |
| Symiau masnachol taladwy | 735 | 1,111 |
| Croniadau | 3,114 | 2,315 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 292 | 73 |
| | **4,929** | **4,265** |

Nid oedd unrhyw symiau'n daladwy gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Cynllun pensiwn yr Aelodau<br>£'000 | Darpariaeth Dadfeilio<br>£'000 | 2018-19 Cyfanswm<br>£'000 | 2017-18 Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **14,979** | **120** | **15,099** | **15,863** |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaeth | 1,631 | - | 1,631 | (2,460) |
| Cost cyllid pensiynau | 1,418 | - | 1,418 | 1,696 |
| Darpariaethau a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn | - | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **18,028** | **120** | **18,148** | **15,099** |

O dan IAS 19, caiff rhwymedigaeth o £18.028 miliwn ei chydnabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.  Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 02.A. Mae rhagor o wybodaeth am y darpariaethau talu iawndal a darpariaethau dadfeilio ar gael yn adran y darpariaethau o Nodyn 01 - Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

O'r cyfanswm o £18.148 miliwn (£15.099 miliwn yn 2017-18), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (£0 miliwn - 2017-18).

## 10. Ymrwymiadau cyfalaf

### Cyfraniadau pensiwn

Mae gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau cytundebol i swm sy'n cyfateb i 10 y cant o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at bensiwn. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben.

Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oes unrhyw rwymedigaeth bosibl bellach o dan y pennawd hwn gan fod terfynau amser ar gyfer ymadawyr wedi dod i ben. Ers mis Mai 2011 mae'r holl staff wedi'u cofrestru'n gytundebol yn y cynllun pensiwn perthnasol.

| Cyfraniadau pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Aelodau sydd: | Swm a oedd yn ddyledus 31 Mawrth 2019 £'000 | Swm a oedd yn ddyledus 31 Mawrth 2018 £'000 | Swm a dalwyd yn 2018-19 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn | - | 3 | - | Eithaf annhebygol |
| Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed | - | 3 | - | Eithaf annhebygol |

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysuro.

## 11. Ymrwymiadau o dan brydlesau

### (a) Prydlesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,777 | 2,777 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,040 | 11,040 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 22,149 | 24,908 |
| | **35,966** | **38,725** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 31 | 41 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 6 | 41 |
| | **37** | **82** |

### (b) Prydlesau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau cyfredol o dan brydlesau ariannol.

## 12. Ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2018.

## 13. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau sy'n cyfeirio at derfynu contractau'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 14. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian gan neb arall. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal â hyn, ceir trafodion rheolaidd rhyngddo a Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (gweler yr Adroddiad ar daliadau a staff, dudalen 110). Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Roedd Joyce Watson, un o Gomisiynwyr y Pumed Cynulliad, yn un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad o 22 Chwefror 2017; Fe wnaeth Caroline Jones, a oedd hefyd yn Gomisiynydd ar y pryd, ddisodli Joyce Watson fel cynrychiolydd y Comisiwn ar 25 Ionawr 2018. Ymddiswyddodd Caroline Jones fel ymddiriedolwr ar 5 Mehefin 2018.

Daeth Bob Evans, sydd hefyd yn Gynghorydd annibynnol i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad (ACARAC) yn gynrychiolydd y Comisiwn i'r Bwrdd Pensiwn ar 20 Rhagfyr 2018.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru(Taliadau) 2010. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Cynulliad. Gall Aelodau gyflogi aelodau o'r teulu

fel eu staff cymorth. Fodd bynnag, caniateir hyn yn unig pan na fydd yr Aelod Cynulliad yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliad.cymru** a **www.assembly.wales**.

# Atodiad – adroddiadau rheoleidd-dra

## Adroddiadau rheoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei hawdurdodi gan y Cynulliad drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiadau a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2018-2019 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

### SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (50,156) | (50,172) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 51,538 | 50,245 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | (1,090) | - |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (73) | (74) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod | 219 | (1) |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 4 Cysoni Alldro Adnoddau Net i Ofyniad Arian Net 2018-19

| | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant) £'000 | Alldro 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 55,088 | 54,365 | 723 | 53,852 |
| Addasiadau croniadol | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (3,900) | (3,737) | (163) | (4,278) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 350 | (472) | 822 | 598 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **51,538** | **50,156** | **1,382** | **50,172** |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2018-19 £'000 | Alldro 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 5 | (2,400) | (2,319) | (81) | (2,582) |
| Cost cyllid pensiynau IAS 19 a newidiadau eraill mewn darpariaeth | | (1,500) | (1,418) | (82) | (1,696) |
| | | **(3,900)** | **(3,737)** | **(163)** | **(4,278)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 5 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2018-19 £'000 | Alldro 2018-19 £'000 | Alldro 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 300 | 181 | 193 |
| Is-gyfanswm | 300 | 181 | 193 |
| Swm a gadwyd | 300 | 181 | 193 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | - | - | - |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2018–19 (2017-18, dim).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

**Craffu ar Gyfrifon 2018-19**

**Argymhellion a gynhwyswyd yn Adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18**

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod targedau Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys mesurau amgen ar gyfer ei berfformiad ariannol, gan sicrhau trylwyredd wrth reoli ei gyllid. Gallai'r rhain adlewyrchu sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn gosod targed ehangach a mwy uchelgeisiol ar gyfer arbedion cost neu effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu ystod lawn ei weithgareddau yn hytrach nag ymwneud â'r contractau y bydd yn eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn yn unig. Dylid llunio adroddiad am berfformiad ar sail y targed bob blwyddyn yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu i'r Pwyllgor, pan fo rhagor o fanylion yn hysbys, y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ei Gynllun Ymadael Gwirfoddol, gan gynnwys sut y cafodd ei lywio gan ei Adolygiad Capasiti.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys dadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn ei adroddiadau monitro mewnol, yn ogystal â'i gyfrifon blynyddol, i wahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl ac achosion eraill o salwch.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae cyfraddau trosiant staff wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf rhwng 2015-16 a 2018-19.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'w system rheoli perfformiad, ynghyd ag asesiad o'u heffeithiolrwydd wrth gryfhau'r trefniadau.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn adeiladu ar y gwaith i ymgysylltu â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac arwain y ffordd ar draws y sector cyhoeddus drwy gynnwys, yn ei adroddiadau blynyddol a'i gyfrifon, ddatgeliad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn mesurau cynaliadwyedd eraill, gan gynnwys

mannau gwefru, i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan ac atgyfnerthu ei rinweddau amgylcheddol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu'n ehangach unrhyw beth perthnasol a ddysgwyd o'i hymdrechion ei hun i gynyddu ei sylfaen cyflenwyr o Gymru.

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-VG-3198-19

Nick Ramsay, AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Medi 2019

Annwyl Nick,

*ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS: RHEOLI APWYNTIADAU DILYNOL CLEIFION ALLANOL AR DRAWS CYMRU – YMATEB I'R ADRODDIAD*

Mae'n bleser gennyf amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod a fydd yn cael ei osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet, hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y ffordd ofalus ac ystyriol y gwnaethoch gynnal yr ymchwiliad a llunio'r adroddiad.

Os bydd angen, bydd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol perthnasol yn falch o ddarparu unrhyw wybodaeth, esboniad neu fanylion pellach yn dilyn yr ymateb hwn.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services
Ynghlwm: Atodiad A

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb i adroddiad "Rheoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar Draws Cymru" gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Darparwyd gan: y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 10 argymhelliad sydd ynddo.

**Argymhelliad 1**. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'r Cynllun Cleifion Allanol Cenedlaethol yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus, a sut y bydd y Byrddau Iechyd yn atebol i'r Cynllun. Rydym yn argymell y dylid llunio rhaglen weithredu sy'n nodi'r hyn y dylid ei gyflawni yn seiliedig ar y meini prawf SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Realistig/Perthnasol ac Amserol), yn erbyn amcanion y cynlluniau i atal y perfformiad yn erbyn targedau apwyntiadau dilynol cleifion allanol rhag gwaethygu ymhellach.

**Derbyn** - Bydd y Cynllun Cleifion Allanol Cenedlaethol, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus a bydd yn cyfleu rolau byrddau iechyd yn glir wrth gyflawni'r cynllun hwn. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys y weledigaeth ar gyfer cleifion allanol, camau allweddol i gyflawni'r weledigaeth gan gynnwys trawsnewid llwybr, risgiau clinigol, deilliannau, camau i leihau rhestrau aros cleifion allanol ac adolygu'r rhai sy'n dod i niwed, targedau. Bydd hyn yn nodi'r pethau y gellir eu cyflawni a'r cerrig milltir. Cyhoeddir y Cynllun Cleifion Allanol Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2019.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu arferion da rhyngwladol ar ddata perfformiad i sicrhau nad yw'r targedau a'r mesuriadau perfformiad ar gyfer Cleifion Allanol yn annog chwarae'r system ac yn mesur yr hyn sydd o bwys clinigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall y mesurau perfformiad newydd ar gyfer cleifion allanol gymharu â gwledydd eraill, eu bod yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd a bod safonau clir ynghylch yr hyn yw perfformiad "da".

**Derbyn** – Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil a fydd yn adolygu tystiolaeth ryngwladol ar ddata perfformiad arferion da ar gyfer Cleifion Allanol. I ddechrau, bydd yn canolbwyntio ar feysydd lle mae risg glinigol uchel fel wroleg a chardioleg. Bydd yr ymchwil yn archwilio a oes mesurau cleifion allanol tebyg. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu ym mis Medi 2019 a disgwylir iddo adrodd cyn pen 6 mis.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor bod pob Bwrdd Iechyd yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol yn erbyn y targedau newydd ar gyfer gwasanaethau dilynol i gleifion allanol erbyn dechrau 2020, a bod cynllun gweithredu clir ar gyfer gwella ar i'r Byrddau Iechyd hynny nad ydynt yn dangos gwelliannau.

**Derbyn** – Mae'r argymhelliad hwn eisoes ar waith. Mae cynlluniau iechyd wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer lleihau eu rhestrau aros dilynol gyda llwybr y cytunwyd arno ar gyfer Mawrth 2020. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u monitro ym mhob grŵp llywio cleifion allanol ac yng nghyfarfodydd Ansawdd a Chyflenwi Llywodraeth Cymru gyda'r byrddau iechyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani erbyn diwedd Ebrill 2020.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau gyda'r Pwyllgor beth fydd y canlyniadau i Fyrddau Iechyd a fydd yn methu â chyrraedd y targedau newydd ar gyfer cleifion allanol.

**Derbyn** – Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani erbyn diwedd Rhagfyr 2019.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor yn gynnar yn 2020 ynghylch y cynnydd y mae holl gyrff y GIG wedi'i wneud i sicrhau bod gan yr holl gleifion ar restrau apwyntiadau dilynol ddyddiad adolygu y cytunwyd arno, ac yn nodi'r camau i'w cymryd i atal niferoedd mawr rhag bod ar y rhestr aros heb ddyddiadau adolygu y cytunwyd arnynt.

**Derbyn** – Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani erbyn diwedd Ebrill 2020.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a oes gan bob bwrdd iechyd ddull clinigol digon cadarn o fonitro a rheoli'r risgiau clinigol i gleifion sy'n aros am apwyntiadau dilynol cleifion allanol.

**Derbyn** – Bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r prosesau sydd ar waith i fonitro risg glinigol gyda'r holl fyrddau iechyd a darparu diweddariad i Gadeirydd y Pwyllgor erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Uned Gyflenwi'r GIG gynnal adolygiad o'r prosesau hyn yn 2020.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer cofnodi achlysuron lle mae cleifion wedi cael niwed o ganlyniad i aros am apwyntiad dilynol claf allanol neu driniaeth yn fwy cyffredinol. Mae angen i'r wybodaeth hon gael ei chasglu ar sail Cymru gyfan a'i chyhoeddi mewn fformat agored a hygyrch.

**Derbyn** – Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Meddygol i sefydlu sut y gellir cyflawni hyn a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny. Wedi hynny, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar weithredu hyn unwaith y bydd opsiynau wedi'u datblygu. Gwneir y penderfyniad hwn erbyn mis Rhagfyr 2019 fan bellaf.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i'r Byrddau Iechyd ynghylch rhannu gwybodaeth â meddygon ymgynghorol am nifer y cleifion sydd ar restrau apwyntiadau dilynol cleifion allanol nad oes apwyntiadau wedi'u trefnu ar eu cyfer.

**Derbyn** – Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sefydlu sut y gellir cyflawni hyn a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny. Wedi hynny, bydd

penderfyniad yn cael ei wneud ar weithredu hyn unwaith y bydd opsiynau wedi'u datblygu. Gwneir y penderfyniad hwn erbyn mis Rhagfyr 2019 fan bellaf.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu dull sy'n galluogi i arferion gorau gael eu rhannu ar draws cyrff y GIG ac sy'n dwyn cyrff y GIG i gyfrif am fabwysiadu'r arferion da hynny.

**Derbyn** – Mae Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio a 1,000 o Fywydau eisoes yn gweithio gyda'i gilydd i annog lledaenu arfer da. Trwy'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio a'r Grŵp Llywio Cleifion Allanol, cynhaliwyd tri digwyddiad cydweithredu arfer gorau, a chyhoeddwyd crynodeb ar-lein o arfer da. Bydd y gwaith hwn yn parhau ac yn cael ei ategu gan raglen weithredu arfer gorau gyda phob bwrdd iechyd yn partneru ag un arall i gynorthwyo i ymgorffori arfer gorau ledled GIG Cymru. Disgwylir i fyrddau iechyd ymgorffori modelau arfer gorau yn eu cynllunio gwasanaeth a'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r mesurau gofal llygaid ac ystyried mabwysiadu dulliau tebyg ar draws arbenigeddau eraill. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi diweddariad ar hyn erbyn mis Gorffennaf 2020.

**Derbyn** – Datblygwyd cyflwyno'r mesur gofal llygaid newydd mewn ymateb i bryderon gan glinigwyr ynghylch cleifion a allai ddod i niwed tra ar restr aros. Mae gweithredu wedi bod yn heriol i'r system ac mae adolygiad o'r gweithredu eisoes wedi'i gynnal gan yr Uned Gyflenwi, i'w ddilyn yn 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag arbenigeddau eraill, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r risg glinigol fwyaf, i ystyried y mesurau mwyaf priodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani erbyn diwedd Gorffennaf 2020.
.